

# Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2015-16



Rydym yn croesawu adborth gan ein defnyddwyr. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar faterion yn ymwneud â'r bwletin ystadegol hwn, anfonwch e-bost at: [Chris.James2@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Chris.James2@cymru.gsi.gov.uk)

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, dyma'r manylion cyswllt:

Chris James,  
Forestry Policy Branch  
Land, Nature and Forestry Division  
Welsh Government  
Cathays Park  
Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3208

E-bost:

[Chris.James2@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Chris.James2@cymru.gsi.gov.uk)

Lluniau: Mae'r holl luniau yn eiddo i Lyfrgell Lluniau'r Comisiwn Coedwigaeth ac yn destun Hawlfraint y Goron oni nodir yn wahanol.

ISBN: 978-1-4734-7420-8

# Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2015-16

---

## Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 4
1: Coetiroedd a choed	Tudalen 5
2: Arallgyfeirio coetiroedd	Tudalen 8
3: Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy	Tudalen 15
4: System reoli	Tudalen 17
5: Coetiroedd fferm	Tudalen 18
6: Coetiroedd a choed trefol	Tudalen 20
7: Cydbwysedd carbon	Tudalen 24
8: Iechyd coed	Tudalen 26
9: Manteision lleol coetiroedd	Tudalen 32
10: Cynnwys cymunedau	Tudalen 35
11: Gweithgareddau hamdden	Tudalen 36
12: Hygyrchedd	Tudalen 39
13: Mentrau lleol	Tudalen 41
14: Defnydd o bren Cymru	Tudalen 43
15: Gwerth y sector coedwigaeth	Tudalen 47
16: Y galw am bren	Tudalen 49
17: Iechyd busnesau yn y sector coedwigaeth	Tudalen 51
18: Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol	Tudalen 54
19: Rhywogaethau coetiroedd	Tudalen 57
20: Cysylltiadau	Tudalen 59
21: Coetiroedd yn rhoi pwysau ar ddŵr	Tudalen 60
22: Coetiroedd fel ateb wrth reoli dŵr	Tudalen 61
23: Treftadaeth a thirwedd	Tudalen 62
Crynodeb: Dangosyddion Coetiroedd i Gymru	Tudalen 63
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd	Tudalen 66
Geirfa	Tudalen 68



## Rhestr o siartiau, tablau a mapiau

Siart 1: Arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru yn ôl math o goetir	Tudalen 5
Siart 2: Arwynebedd y coetir newydd a blennir y flwyddyn yn ôl math o goetir	Tudalen 6
Siart 3: Amrywiaeth coetiroedd ar raddfa 1 hectar	Tudalen 12
Siart 4: Nifer y rhywogaethau coed fesul 0.25 hectar	Tudalen 12
Siart 5: Rhywogaethau Categori 1 Coedwig Conwydd Uchel	Tudalen 13
Siart 6: Amcangyfrif y coetiroedd a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS)	Tudalen 15
Siart 7: Amcangyfrif y coetiroedd a reolir drwy gwmpo coed a heb gwmpo coed	Tudalen 17
Siart 8: Coetiroedd fferm mewn cynllun grant	Tudalen 18
Siart 9: Cynaeafu coetiroedd fferm	Tudalen 19
Siart 10: Brigdwf fesul ardal	Tudalen 21
Siart 11: Manteision coed trefol	Tudalen 22
Siart 12: Anfanteision coed trefol	Tudalen 22
Siart 13: Allyrru a dal CO <sub>2</sub> mewn coedwigoedd	Tudalen 24
Siart 14: Allyrru a dal CO <sub>2</sub> mewn cynhyrchion pren a gynaeafwyd	Tudalen 25
Siart 15: Manteision coetiroedd i gymunedau lleol	Tudalen 32
Siart 16: Anfanteision coetiroedd i gymunedau lleol	Tudalen 33
Siart 17: Pobl yn nodi o leiaf un fantais neu anfantais	Tudalen 33
Siart 18: Canran yr oedolion sydd wedi ymweld â choetiroedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf	Tudalen 36
Siart 19: Gweithgareddau sydd wedi eu cynnal yn yr awyr agored yn y 12 mis diwethaf	Tudalen 37
Siart 20: Canran yr oedolion â mynediad hawdd i goetiroedd heb gar	Tudalen 39
Siart 21: Canran y boblogaeth â mynediad i goetiroedd	Tudalen 39
Siart 22: Newidiadau o ran niferoedd gweithwyr cyflogedig	Tudalen 41
Siart 23: Newidiadau o ran nifer y busnesau	Tudalen 42
Siart 24: Pren a gynaeafwyd	Tudalen 43
Siart 25: Cymarebau cynaeafu/argaeledd	Tudalen 44
Siart 26: Canran y boncyffion o Gymru a broseswyd yng Nghymru	Tudalen 45
Siart 27: Busnesau yn ôl prif ffynhonnell bren	Tudalen 45
Siart 28: Maint y pren a ddefnyddiwyd yn ôl ffynhonnell	Tudalen 45
Siart 29: Newid dros amser o ran Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)	Tudalen 47
Siart 30: Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) sector coedwigaeth Cymru o gymharu â'r DU	Tudalen 48
Siart 31: Defnydd ymddangosol y DU o gynhyrchion pren	Tudalen 49
Siart 32: Newidiadau o ran trosiant busnesau 2007–2010	Tudalen 51
Siart 33: Newidiadau o ran nifer y gweithwyr a gyflogwyd gan fusnesau 2007–2010	Tudalen 52
Siart 34: Hyder busnesau ar gyfer y dyfodol 2010–2013	Tudalen 52
Siart 35: Disgwyliadau busnesau o ran trosiant ar gyfer 2010 – 2013	Tudalen 53
Siart 36: Nifer y rhywogaethau adar yn ôl cynefin	Tudalen 58
Tabl 1: Coed a nodweddion llinellol y tu allan i goetiroedd	Tudalen 6
Tabl 2: Nodweddion llinellol coediog	Tudalen 7
Tabl 3: Amcangyfrif y coetiroedd yng Nghymru a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU	Tudalen 15
Tabl 4: Brigdwf mewn ardaloedd trefol	Tudalen 20
Tabl 5: Brigdwf mewn trefi penodol	Tudalen 21
Tabl 6: Bod yn gysylltiedig â choetiroedd	Tudalen 35
Tabl 7: Grwpiau cymunedol	Tudalen 35

Tabl 8: Ardal drefol â mynediad i goetiroedd	Tudalen 40
Tabl 9: Mynediad i goetiroedd ar gyfer ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd iechyd	Tudalen 40
Tabl 10: Amcangyfrifon o weithwyr cyflogedig y sector coedwigaeth ar hyn o bryd	Tudalen 41
Tabl 11: Cymarebau cynaeafu/argaeledd	Tudalen 43
Tabl 12: Boncyffion o Gymru a gyflenwyd i felinau llifio yn y DU (mil tunnell gwyrdd)	Tudalen 44
Tabl 13: Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru	Tudalen 47
Tabl 14: Defnydd ymddangosol y DU yn ôl math o gynnyrch	Tudalen 49
Tabl 15: Defnydd ymddangosol y DU o bapur	Tudalen 50
Tabl 16: Newidiadau o ran trosiant busnesau 2001–2010	Tudalen 52
Tabl 17: Cyflwr coetiroedd brodorol	Tudalen 54
Tabl 18: Cyflwr nodweddion coetiroedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yng Nghymru	Tudalen 55
Tabl 19: Pob rhywogaeth â blaenoriaeth	Tudalen 57
Tabl 20: Rhywogaethau â blaenoriaeth uchel	Tudalen 57
Tabl 21: Arwynebedd coetiroedd mewn prif rwydweithiau yn ôl math o goetir	Tudalen 59
Tabl 23: Arwynebedd coetiroedd mewn parthau rhydwaith	Tudalen 59
Map 1: Ardal Basn Afon Dyfrdwy	Tudalen 8
Map 2: Ardal Basn Afon Hafren	Tudalen 9
Map 3: Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru	Tudalen 10
Map 4: Dosbarthiad <i>P. ramorum</i> yng Nghymru	Tudalen 27
Map 5: Dosbarthiad <i>C. fraxinea</i> yng Nghymru	Tudalen 29
Map 6: Adroddiadau Dirywiad Coed Derw	Tudalen 30
Ffigwr 1: Prif rywogaethau coed yn ôl yr ardal stocio ar 31 Fawrth 31 2012 – Ardal Basn Afon Dyfrdwy	Tudalen 9
Ffigwr 2: Prif rywogaethau coed yn ôl ardal stocio ar Fawrth 31 2012 – Ardal Basn Afon Hafren	Tudalen 10
Ffigwr 3: Prif rywogaethau coed yn ôl ardal stocio ar Fawrth 31 2012 – Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru	Tudalen 11



## Cyflwyniad

Dyma'r seithfed adroddiad dangosyddion ers i strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetir a choed, Coetiroedd i Gymru, gael ei hadolygu ym mis Mawrth 2009.

Nod y 23 dangosydd yw monitro cynnydd tuag at gyflawni'r 20 canlyniad lefel uchel a ddisgrifir yn Coetiroedd i Gymru, ac maent yn cyfateb i'r rhestr a geir ar dudalennau 54 a 55 yn y ddogfen strategaeth. Nod y 6 dangosydd cyntaf yw monitro newidiadau yn arwynebedd a natur coetiroedd a choed Cymru, a diben y 17 arall yw monitro'r nwyddau a'r gwasanaethau y gall coetiroedd a choed eu darparu: mae'r rhan fwyaf yn cynnwys nifer o fesurau. Mae nifer o'r dangosyddion yn perthyn i fwy nag un o'r 20 canlyniad lefel uchel: dangosir hyn mewn tabl ar ddiwedd yr adroddiad. Mae rhai o'r dangosyddion yn dangos cynnydd yn achos Ystad Coetir Llywodraeth Cymru a choetiroedd yn gyffredinol.

Dangosir y ffynonellau data ar gyfer y mesurau, yn ogystal â'r duedd ddymunol ac amlwg ar gyfer pob dangosydd, gyda gwybodaeth llinell sylfaen lle mae ar gael. Er mwyn rhoi cyd-destun i'r data, mae'r sylwadau sy'n cyd-fynd â nhw yn nodi perthnasedd pob dangosydd, yn ogystal â'r pwyntiau allweddol amdano a nodiadau yn ei gylch. Gan fod y gwaith hwn yn parhau i symud ymlaen mae nifer o ddangosyddion wrthi'n cael eu datblygu. Gan fod rhai agweddau ar y coetiroedd a'r coed yn newid yn araf, mae rhai dangosyddion yn cael eu diweddarau bob dwy, tair neu bum mlynedd yn hytrach na phob blwyddyn, sy'n cyd-fynd â rhaglen adrodd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ac amserlen arolygon Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gan adeiladu ar adroddiad cynnydd 2001–2005, a gyhoeddwyd yn 2006, ac sy'n seiliedig ar y Coetiroedd i Gymru gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2001, aed ati, lle bo modd, i ddatblygu dangosyddion a fydd yn golygu yn bydd modd dilyn tueddiadau am oes y strategaeth 50 mlynedd ar ei hyd.

## 1. Coetiroedd a choed


### Pwyntiau allweddol

- Rhwng 2001 a 2010, arhosodd arwynebedd amcangyfrifedig coetiroedd Cymru yn weddol gyson rhwng 289,000 hecтар a 284,000 hecтар, er bod cynnydd yng nghyfran y llydanddail o gymharu â choetiroedd coed conwydd. Mae arwynebedd amcangyfrifedig ein coetiroedd ar hyn o bryd yn 306,000 hecтар, cynnydd o ffigur 2010. Mae llawer o'r cynnydd hwn, yn enwedig y cynnydd mewn coetiroedd amcangyfrifedig rhwng 2010 a 2011, i'w briodoli i dechnegau mesur gwell yn hytrach na chynnydd yn arwynebedd y coetiroedd.
- Ers 2001, mae arwynebedd amcangyfrifedig ein coetiroedd conwydd yng Nghymru wedi lleihau 18,000 hecтар, tra bo arwynebedd amcangyfrifedig ein coetiroedd llydanddail wedi cynyddu 35,000 hecтар.
- Mae'n ymddangos bod hyd nodweddion llinellol coediog wedi aros yn ddigon sefydlog; nid oes gennym unrhyw ddata eto ynghylch tueddiadau coed unigol y tu allan i goetiroedd.
- Mae'r cyfraddau plannu newydd wedi gostwng yn ddiweddar ac yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 cafodd 141 hecтар (102 hecтар o lydanddail a 39 hecтар o goed conwydd) eu plannu.

### Data

#### a) Arwynebedd coetiroedd

**Siart 1: Arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru yn ôl math o goetir**




Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

Ers 2001, mae amcangyfrif yr arwynebedd o goetir conwydd yng Nghymru wedi gostwng 18,000 hecтар, tra bo amcangyfrif yr arwynebedd o goetir llydanddail wedi cynyddu 35,000 hecтар. Fodd bynnag roedd amcangyfrif y gyfran o gonwydd a llydanddail wedi aros oddeutu yr un peth ers 2012.

## b) Plannu coetiroedd newydd

Mae cyfradd y plannu newydd wedi cynyddu rhwng 2009 a 2014 ond yn ddiweddar bu gostyngiad. Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 roedd rhywfaint o blannu coed conwydd (39 hecтар) ac roedd mwyafrif y plannu newydd yn blannu llydanddail (102 hecтар). Mae'r cyllid tuag at y gost o sefydlu coetir newydd o dan elfen Coetir Glastir Rhaglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014-2020 ar ddod, a fydd yn ysgogi plannu newydd, a bydd y gyfradd yn cael ei monitro yn yr adroddiadau Dangosyddion Coetiroedd i Gymru nesaf a'r rhai dilynol.

## Siart 2: Arwynebedd y coetir newydd a blennir y flwyddyn yn ôl math o goetir



Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

## c) Nifer y coed a hyd nodweddion llinellol

Mae'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed (1997) yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am nifer y coed a hyd nodweddion llinellol, fel cloddiau, cloddiau creiriol a llinellau o goed, y tu allan i goetiroedd.

**Tabl 1: Coed a nodweddion llinellol y tu allan i goetiroedd**

Dyddiad	1997
Cyfanswm y coed y tu allan i goetir	15.3 miliwn
Cyfanswm hyd nodweddion llinellol	14,568 km

Ffynhonnell: Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn defnyddio methodoleg wahanol i adrodd ar hyd nodweddion llinellol, ond nid yw'n amcangyfrif nifer y coed unigol. Mae'r arolwg hwn yn nodi nad oedd unrhyw newid sylweddol rhwng 1998 a 2007 o ran hyd cyffredinol nodweddion llinellol coediog, er bod gostyngiad



sylweddol wedi bod o ran hyd cloddiau a reolir a chynnydd cydamserol o ran hyd cloddiau creiriol/llinellau o goed/llwyni/ffensys.

**Tabl 2: Nodweddion llinellol coediog**

Dyddiad	1998	2007
	Hyd (miloedd o km)	
<b>Cyfanswm nodweddion llinellol coediog</b>	107	106
<b>Cloddiau</b>	57	54
<b>Llinell o goed/llwyni/cloddiau creiriol/ffensys</b>	27	30
<b>Llinell o goed/llwyni/cloddiau creiriol</b>	19	19

Ffynhonnell: Arolwg Cefn Gwlad

### Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn rhoi gwybodaeth am lefel gyffredinol coetiroedd a choed yng Nghymru. Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd yng Nghymru yn cynyddu, yn enwedig trwy greu coetiroedd brodorol newydd a choetiroedd cymysg newydd. Mae hyn yn rhannol er mwyn sicrhau bod potensial cynhyrchu cyffredinol coetiroedd Cymru yn cael ei gynnal. Mae angen mwy o goetiroedd hefyd i ddarparu'r ystod llawn o wasanaethau ecosystem a manteision cymunedol sy'n cael eu rhagweld yn y strategaeth, a sicrhau cyfraniad coetiroedd at yr amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a darparu yn erbyn y fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol sydd wedi ei sefydlu yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Un o ganlyniadau dymunol eraill y strategaeth yw bod amddiffyniad gwell ar gyfer coed unigol, a bod mwy o goed unigol yn cael eu plannu i gydnabod eu cyfraniad at wasanaethau ecosystem a'n hansawdd bywyd.

### Nodiadau

Cyhoeddwyd canlyniadau cychwynnol Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol 2010 ar gyfer Cymru ym mis Mawrth 2011, ac roedd yn amcangyfrif bod arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru tua 20,000 hectar yn fwy na'r amcangyfrif yn 2010 (gweler Siart 1). Mae'r rhan fwyaf o'r gwahaniaeth yn deillio o welliannau technolegol rhwng y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed (1995-1999) a Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol 2010, yn hytrach nag oherwydd achosion heb eu cofnodi o blannu coetiroedd neu ailgoedwigo naturiol. Bydd data o'r Arolwg Coedwigoedd Bach sy'n cofnodi y brigdwf o goetiroedd llai na 0.5 hectar, coed unigol, coed mewn perthi ar gael i ddiweddarau Dangosydd 1 yn natganiad y flwyddyn nesaf.

## 2. Arallgyfeirio coetiroedd

### Pwyntiau allweddol

- Ym 1997, clystyrau o rywogaethau sengl oedd nodwedd amlycaf coetiroedd coed conwydd
- Rhwng 1991 a 1997, plannwyd mwy o byrwydd Sitca nag unrhyw goed conwydd eraill (63% o'r holl goed conwydd a blannwyd), ac roedd 80% o'r ardaloedd a blannwyd yn cynnwys pedair prif rywogaeth – pyrwydd Sitca, coed llarwydd Siapan/hybrid, coed pyrwydd Norwy a choed pinwydd Douglas.


### Data

- a) Amrywiaeth coetiroedd ar raddfa dalgylch

Mae'r adran hon yn cynnwys 3 dalgylch yng Nghymru: Ardal Basn yr Afon Dyfrdwy; Ardal Basn yr Afon Hafren; ac Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae rhagor o fanylion o amrywiaeth Coetiroedd ar raddfa dalgylch yr ardaloedd hyn i'w cael drwy glicio ar y [ddolen](#) ganlynol.

### Ardal Basn Afon Dyfrdwy


#### Map 1: Ardal Basn Afon Dyfrdwy



Ffynhonell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

Mae ffigur 1 yn dangos mai yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy, y coed mwyaf cyffredin yn y coetiroedd yw'r pyrwydd Sitka (27%), a'r coed mwyaf cyffredin nesaf yn yr ardal hon yw coed Bedw (12%), a'r trydydd mwyaf cyffredin yw coed y Ddraenen Wen (10%).

**Ffigwr 1: Prif rywogaethau coed yn ôl yr ardal stocio ar 31 Fawrth 31 2012 – Ardal Basn Afon Dyfrdwy**



Ffynhonell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

**Ardal Basn Afon Hafren**


**Map 2: Ardal Basn Afon Hafren**



Ffynhonell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

Mae Ffigwr 2 yn dangos mai yn Ardal Basn Afon Hafren, y coed mwyaf cyffredin yn y coetiroedd yw'r pyrwydd Sitka (17%), y coed mwyaf cyffredin nesaf yw coed Derw (11%), a'r trydydd mwyaf cyffredin yw y Ddraenen Wen (10%).


**Ffigwr 2: Y prif rywogaethau coed yn ôl ardal stocio ar 31 Mawrth 2012 – Ardal Basn Afon Hafren**



Ffynhonnell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

**Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru**


**Map 3: Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru**



Ffynhonnell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

Mae ffigwr 3 yn dangos mai'r coed mwyaf cyffredin yng nghoetiroedd Ardal Basn Afon Hafren yw'r pyrwydd Sitka (30%), y coed mwyaf cyffredin nesaf yn yr ardal hon yw coed Derw (11%), a'r trydydd coed mwyaf cyffredin yw coed Ynn (8%).

**Ffigwr 3: Prif rywogaethau coed yn ôl ardal stocio ar 31 Mawrth 2012 – Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

Mae'n ymddangos bod gan y dair dalgylch amrywiaeth o goed; fodd bynnag, mae gan pob un ohonynt glystyrau mawr o rywogaethau penodol o goed megis pyrwydd Sitka, coed Ynn a Bedw.

b) Mynegai amrywiaeth cynefinoedd coetiroedd ar raddfa 1 hectar

Mae'r mynegai hwn yn gwahaniaethu rhwng rhywogaethau gwahanol o goed. Mae sgôr o 0.0 yn golygu mai un rhywogaeth yn unig sy'n bresennol yn yr hectar sgwâr. Ar hyn o bryd, dim ond data llinell sylfaen sydd ar gael ar gyfer 1997, a hynny o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed, ond bydd y data yn cael eu diweddarau dros y pum mlynedd nesaf, ar ôl i ganlyniadau'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol gael eu cyhoeddi.




**Siart 3: Amrywiaeth coetiroedd ar raddfa 1 hectar**

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata arolwg maes o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed 1997

c) Cymysgedd cynefin: Nifer y rhywogaethau coed sy'n bresennol ym mhob chwarter hectar

Fel sy'n wir am y dangosydd blaenorol, mae'r data sydd ar gael yn darparu llinell sylfaen ar gyfer 1997, a bydd yn cael eu diweddarau drwy ddefnyddio data o'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol.


**Siart 4: Nifer y rhywogaethau coed fesul 0.25 hectar**

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata arolwg maes o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed 1997

d) Plannu

Mae'r graff canlynol yn dangos yr amrywiaeth o rywogaethau coed conwydd a blannwyd mewn ardaloedd Coedwig Uchel Categori 1 yng Nghymru fesul blwyddyn blannu. Mae'r rhain yn glystyrau sy'n gallu, neu a allai, gynhyrchu coed o faint ac ansawdd sy'n addas ar gyfer boncyffion. Mae'r ffigurau yn cynnwys ailstocio a phlannu coed newydd.

**Siart 5: Rhywogaethau Categori 1 Coedwig Conwydd Uchel**



Ffynhonnell: Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

Wrth blannu coed conwydd rhwng 1991 a 1997, y pyrwydd Sitka a blannwyd fwyaf (63% o bob ardal gonwydd a blannwyd, er bod hyn yn llai o 14% na'r cyfnod cyn hyn), ac mae 80% o bob ardal a blannwyd o bedair rywogaeth benodol – pyrwydd Sitka, llarwydd Siapan/croesiad, pyrwydd Norwy a phinwydd Douglas. Er y dylid nodi bod yr ardal o rywogaethau categori 1 coedwig conwydd uchel wedi gostwng o'r cyfnod a ddaw i ben yn 1970 o gymharu â'r cyfnod a ddaw i ben yn 1997.

e) Sylfaen genetig

Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn datblygu, os oes modd, dangosydd sy'n gallu monitro amrywiaeth genetig coed sy'n cael eu plannu yng Nghymru.

**Perthnasedd**

Mae'r dangosydd hwn yn monitro amrywiaeth coetiroedd yng Nghymru ar raddfeydd gwahanol, ac mae'n ystyried yr amrywiaeth o rywogaethau coed sy'n cael eu plannu. Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw arallgyfeirio coetiroedd yn briodol, yn arbennig coetiroedd anfrodorol, ar amrywiaeth o raddfeydd, o ran strwythur oedran, rhywogaethau coed a sylfaen genetig. Dyma'r tueddiadau dymunol:

- Cynyddu amrywiaeth y mathau o goetiroedd ar raddfa dalgylch a choetir
- Cynyddu arwynebedd coetiroedd anfrodorol gyda chymysgedd cynefin
- Plannu yn cael ei ddomynddu llai gan rywogaethau sengl

- Plannu sylfaen genetig ehangach

#### Nodiadau

Disgwylir diweddariadau ar gyfer a), b) ac c) yn ystod y cylch hwn o'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (2011-2016).



### 3. Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy

#### Pwyntiau allweddol

- Mae cyfanswm arwynebedd y coetiroedd a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU wedi cynyddu o 123,000 hectar yn 2001 i isafswm a amcangyfrifir o 172,000 hectar yn 2015. Mae cyfanswm yr arwynebedd a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU yn debygol o fod yn uwch.

#### Data


**Tabl 3: Amcangyfrif o Arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU**

Blwyddyn hyd at 31 Mawrth	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Arwynebedd ardystiedig ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru	115	113	110	110	109	108	107	106	105	105	114	117	117	117	117
Arwynebedd ardystiedig nad yw ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru	8	8	9.5	11	15	16	17	15	19	18	19	21	22	24	24
Arwynebedd mewn cynlluniau grant sy'n cyrraedd UKFS	0	0	0	0	0	0	1	6	15	29	39	62	62	86	55

Ffynonellau: Cronfeydd data Ystadegau Coedwigaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar goetiroedd mewn cynlluniau grant

Gan ei bod yn amhosibl gwybod a yw arwynebeddau mewn cynlluniau grant yn ardystiedig hefyd, ni ellir bod yn sicr am gyfanswm y coetiroedd a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU, ond dangosir yr amcangyfrif isaf ac uchaf isod.

**Siart 6: Amcangyfrif arwynebedd y coetiroedd a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU**



Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru

### Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn monitro arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS), gan gynnwys arwynebedd y coetiroedd sydd wedi'u hardystio i safon yr FSC neu'r PEFC. Un o amcanion y strategaeth yw sicrhau bod mwy o goetiroedd, gan gynnwys llawer o goetiroedd bach a thameidiog, yn cael eu rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth y DU. Y nod, yn y pen draw, yw gweld mwy o goetiroedd Cymru yn ennill ardystiad Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.




## 4. System reoli

### Pwyntiau allweddol

- Ar y cyfan, mae arwynebedd y coetir a reolir heb gwmpo coed wedi cynyddu ond mae'r cynnydd hwn wedi lleihau yn y flwyddyn ddiwethaf
- Mae arwynebedd y coetir a reolir drwy gwmpo coed wedi gostwng yn gyffredinol

### Data

#### Siart 7: Amcangyfrif arwynebedd y coetiroedd a reolir drwy gwmpo coed a heb gwmpo coed



\*Yn 2009, newidiwyd y ffordd y cyfrifir arwynebedd coetiroedd a reolir heb gwmpo coed.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystadegau Coedwigaeth

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd yn cael eu haddasu'n well i ddarparu ystod lawn o fanteision, ac er mwyn sicrhau'r canlyniad hwn, un o'r nodau yw bod cwmpo coed yn cael ei osgoi lle byddai systemau rheoli eraill yn gwneud cyfraniad gwell at wasanaethau ecosystem. Mae'r dangosydd hwn yn monitro arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru a reolir heb gwmpo coed. Dyma'r tueddiadau dymunol:

- Gostyngiad yn yr arwynebedd a reolir drwy gwmpo coed
- Cynnydd yn yr arwynebedd sy'n cael ei reoli'n weithredol ar gyfer pren gan ddefnyddio systemau eraill

### Nodiadau

Amcangyfrifwyd arwynebeddau drwy ddefnyddio data o gronfa ddata grantiau CNC a chronfa ddata'r GIS. Gall arwynebeddau lle mae'r dull rheoli yn anhysbys gynnwys arwynebeddau a reolir drwy gwmpo coed neu heb gwmpo coed, yn ogystal ag arwynebeddau nad ydynt yn cael eu rheoli'n weithredol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, y rheswm pennaf a roddir dros y gostyngiad yn yr ardaloedd o goetir sy'n cael eu rheoli heb gwmpo coed a'r cynnydd cyfatebol yn yr ardal ble nad oes rheoli yw nad oes grant rheoli coetiroedd ar gael o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig.

## 5. Coetiroedd Fferm


### Pwyntiau allweddol

- Mae faint o goetir fferm sydd mewn cynlluniau grant wedi cynyddu'n raddol ers 2000, fodd bynnag ers 2013 mae faint o goetir fferm sydd o fewn cynllun grant wedi dechrau gostwng.
- Dim ond cyfran fach o ffermwyr sy'n cynaeafu eu coetir ar gyfer pren neu goed tân i'w gwerthu. Nid yw oddeutu dwy ran o dair o ffermwyr sydd â choetir yn cynaeafu coed neu goed tân o'u coetiroedd. Dylid ystyried y canlyniad hwn yn ofalus oherwydd y methodoleg gwahanol a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr arolygon (Siart 9).

### Data

#### a) Arwynebedd coetiroedd fferm sydd mewn cynllun grant

Siart 8: Coetiroedd fferm mewn cynllun grant




Ffynhonnell: Cronfeydd data Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Daeth contractau Tir Gofal i ben yn 2014 ac mae rhai o'r ardaloedd o goetir fferm a arferai gael ei reoli o dan y cynllun yn debygol o gael eu rheoli o dan gynllun grant coetir Glastir, gan arwain at y gostyngiad mawr yn Tir Gofal a'r cynnydd mawr yn Glastir dros y flwyddyn ddiwethaf.

#### b) Cyfran y ffermwyr sy'n cynaeafu coed tân neu bren

Daw'r data hyn o dair ffynhonnell wahanol: daw'r data ar gyfer 2009 o arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) o ffermwyr sydd â choetir ar eu ffermydd, a daw'r data ar gyfer 2012 o'r Astudiaeth Adnoddau Coedwigaeth a gwblhawyd gan MWMAC ar ran CCC; a daw data 2015 o Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Cymru. O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd modd cymharu'r data yn uniongyrchol oherwydd bod cwestiynau'r arolygon, a'r dull o'u cynnal, yn wahanol.

Siart 9: Cynaeafu coetiroedd fferm



Ffynhonnell: Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o Ffermwyr, Astudiaeth Adnoddau Coedwigaeth

**Perthnasedd**

Mae tua 78,000 hectar o goetiroedd ar ffermydd yng Nghymru (Ffynhonnell: amcangyfrifon o Arolwg Amaethyddiaeth Cymru, Mehefin 2015) – tua chwarter o'r holl goetiroedd yng Nghymru. Un o nodau'r strategaeth yw bod ffermwyr yn cael cymorth gwell i reoli eu coetiroedd a choed er mwyn darparu gwasanaethau ecosystem ac amrywio eu busnesau. Mae'r dangosydd hwn yn monitro'r coetir fferm sydd mewn cynllun grantiau a chyfran y ffermwyr sy'n rheoli eu coetiroedd ar gyfer cynnyrch pren, gan gynnwys coed tân. Dyma'r tueddiadau dymunol:

- a) Cynyddu arwynebedd coetir fferm sydd mewn cynllun grant
- b) Cynyddu cyfran y ffermwyr sy'n cynaeafu coed tân a phren o'u coetiroedd, neu sy'n creu incwm o goetiroedd mewn ffyrdd eraill

**Nodiadau**

Mae cyfanswm y coetiroedd fferm sy'n rhan o Tir Gofal wedi'i amcangyfrif, ac mae'n bosibl na ellir cymharu methodoleg 2011 a 2012.

## 6. Coetiroedd a choed trefol

### Pwyntiau allweddol

- Mae'r cynnydd ymddangosiadol mewn brigdwf rhwng 2006 and 2009 i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith fod safon ffotograffiaeth yn 2009 yn fwy eglur, sy'n golygu bod modd adnabod coetiroedd a choed yn well.
- Yn gyffredinol, ceir lefelau uwch o frigidwf yn y Cymoedd a lefelau is mewn trefi arfordirol.
- Roedd bron naw o bob deg person (91%) yn gallu enwi o leiaf un o fanteision coed trefol, ac roedd dros eu hanner (58%) yn gallu enwi o leiaf un anfantais

### Data

#### a) Brigdwf Trefol

Mae'r data hwn yn ystyried yr ardaloedd a ddisgrifir fel rhai 'trefol' yn adroddiad 'Rhestr Coed Trefol Cymru' CNC. Dangosir brigdwf cyffredinol mewn trefi yng Nghymru isod.

**Tabl 4: Brigdwf mewn ardaloedd trefol**

Blwyddyn	Ardal Drefol (hectar)	Coetir (hectar)	Brigdwf
2006	84,331	12,568	15%
2009	86,331	14,636	17%
2009	86,331	14,097	16%

Ffynhonnell: Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru (2016)

\*Mae datganiadau blaenorol wedi cyfeirio at Goetir yn hytrach na Brigdwf. Canrannau wedi eu talgrynnu.

Mae'r cynnydd o 2,068 mewn brigdwf rhwng 2006 a 2009 yn debygol o fod oherwydd bod gwell manylion yn y ffotograffau yn hytrach na bod mwy o frigidwf yn ystod y cyfnod hwn. Mae cymariaethau rhwng 2009 a 2013 gan ddefnyddio yr un math o ffotograffiaeth yn dangos bod gostyngiad yn y brigdwf o 539 hectar ledled Cymru.

Dangosir lefelau brigdwf ar gyfer ardaloedd trefol Awdurdodau Lleol yng Nghymru isod.

Siart 10: Brigdwf fesul ardal



Ffynhonnell: Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru (2016)

Nodir bod gan wahanol fathau o drefi lefelau brigdwf gwahanol. Mae'r tabl isod yn dangos lefelau brigdwf ar gyfer Caerdydd, Port Talbot – tref ddiwydiannol iawn, Pont-y-pŵl – tref yn y Cymoedd, a'r Rhyl – tref ar arfordir y gogledd.

Tabl 5: Brigdwf mewn trefi penodol

Tref	Ardal Drefol (hectar)	Coetir (hectar)	Brigdwf
Cardiff	8,421	1,302	15.50%
Port Talbot	2,302	188	8.20%
Pontypool (& Abersychan)	1,203	277	23.00%
Rhyl	659	36	5.50%


Ffynhonnell: Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru (2016)

Mae'n ymddangos bod y tabl uchod yn nodi bod ar y cyfan lefelau uwch o frigidwdf yn y Cymoedd a lefelau is yn y trefi arfordirol.




b) Canfyddiadau am fanteision ac anfanteision coed trefol:

**Siart 11: Manteision coed trefol**



Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

**Siart 12: Anfanteision coed trefol**



Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

Mae Barn y Cyhoedd ynghylch yr Arolwg Coedwigaeth yn dangos mai y fantais fwyaf i goed trefol oedd eu bod yn “gwneud i’r lle edrych yn ddeniadol”, a’r anfantais mwyaf oedd bod coed trefol yn gollwng “dail a changhennau sy’n berygl ac yn gwneud llansast”.

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd a choed trefol yn darparu amrywiaeth eang o fanteision, gyda defnydd mwy creadigol o gyfleoedd i blannu coetiroedd a choed mewn datblygiadau newydd wrth adfer safleoedd tir llwyd i roi mannau gwyrdd o safon uwch sy’n hawdd eu cyrraedd. Mae’r dangosydd hwn yn monitro arwynebedd coetiroedd trefol.

Wrth i’r canlyniad hwn gael ei wireddu, rydym yn disgwyl gweld canfyddiadau pobl am fanteision coed trefol yn newid. Mae ail ran y dangosydd hwn yn monitro’r canfyddiadau hyn drwy ddefnyddio data a gasglwyd o Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth a gynhelir bob dwy flynedd.

## 7. Cydbwysedd carbon

### Pwyntiau allweddol


- Amcangyfrifir bod tua 1,419 gigagram (1,419,000 tonnelli) o garbon yn cael ei ddal a'i storio bob blwyddyn yng nghoetiroedd Cymru.
- Rhagwelir y bydd tir coedwig yn parhau'n ddalfa net ar gyfer allyriadau

### Data

Carbon sy'n cael ei allyrru a charbon sy'n cael ei ddal


Mae'r siart isod yn dangos allyriadau carbon hanesyddol a rhagamcanol ar sail senarios amrywiol: "Busnes fel Arfer", uchel, canolig ac isel, fel y'u disgrifir yn yr adroddiad 'Projections to 2050 of emissions and removals from the LULUCF sector in Scotland, England, Wales and Northern Ireland'. Dangosir allyriadau CO<sub>2</sub> fel symiau cadarnhaol, a daliadau CO<sub>2</sub> fel cyfansymiau negyddol. O dan bob senario, bydd tir coedwig yn parhau'n ddalfa net ar gyfer allyriadau yn ystod y cyfnod hyd at 2050.

**Siart 13: Allyrru a dal CO<sub>2</sub> mewn coedwigoedd**



Ffynhonnell: Projections to 2050 of emissions and removals from the LULUCF sector in Scotland, England, Wales and Northern Ireland, H. Malcolm *et al*

Siart 14: Allyrru a dal CO<sub>2</sub> mewn cynhyrchion pren a gynaeafwyd



Ffynhonnell: Projections to 2050 of emissions and removals from the LULUCF sector in Scotland, England, Wales and Northern Ireland, H. Malcolm *et al*

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd Cymru yn helpu i leihau ôl troed carbon Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn monitro stociau carbon mewn biomas coetiroedd a chynhyrchion pren, a gostyngiad mewn carbon yn sgil amnewid cynhyrchion a thanwydd. Y tueddiadau dymunol yw cynyddu'r stociau carbon a lleihau allyriadau carbon.

### Nodiadau

Ailgyfrifwyd faint o garbon y mae tir coedwig yn ei ddal a'i storio, gan ystyried y carbon sy'n cael ei ddal a'i storio gan goetiroedd a blannwyd cyn 1920. Mae hynny wedi arwain at gynnydd mewn faint o garbon sy'n cael ei ddal a'i storio, ac fe'i cyfrifwyd yn ôl-weithredol ar gyfer y gorffennol, yn ogystal â'r dyfodol.

## 8. Iechyd coed

### Pwyntiau allweddol

- Ers 2010, mae achosion o ddau glefyd cwarantîn wedi effeithio ar rywogaethau coed yng Nghymru (*Phytophthora ramorum* a *Chalara fraxinea*).
- Cafodd cynllun penodol ar gyfer Cymru i reoli clefyd *Phytophthora ramorum* ei lansio ym mis Rhagfyr 2013, ac mae'n sefydlu parthau rheoli.
- Mae nifer bach o blâu a chlefydau nad ydynt yn rhai cwarantîn yn effeithio ar rywogaethau coed yng Nghymru. Mae canfyddiadau diweddar o Ddirywiad Aciwt mewn coed Derwen a *Sirococcus tsugae* ar Atlas Cedars a *Neonectria* ar y Ffynydydden Iwydlas i'w nodi.

### Data

#### Clefyd *Ramorum* mewn coed llarwydd


Mae'r map ar y dudalen nesaf yn dangos achosion o *Phytophthora ramorum* yng nghoetiroedd Cymru. Rhwng 2003 a 2009, cofnodwyd 51 achos o'r clefyd cwarantîn *P. ramorum* yng Nghymru, pob un yn effeithio ar lwyni fel rhododendron mewn planhigfeydd, canolfannau garddio a rhai gerddi agored. Ystyriwyd bod yr achosion wedi'u rheoli'n foddhaol. Fodd bynnag, ers 2009, mae'r clefyd wedi cael ei ddarganfod yn heintio ac yn lladd nifer mawr o goed llarwydd Siapan, yn Ne-orllewin Lloegr yn gyntaf, ac yng Nghymru ers 2010. Ar hyn o bryd, mae achosion yng Nghymru wedi cael eu cyfyngu'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, i hanner deheuol y wlad ac maent i'w gweld yn aml ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Fodd bynnag, ystyrir bod coed llarwydd ledled Cymru mewn perygl. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, Forest Research a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn gweithio gyda'i gilydd i arolygu, astudio a rheoli'r clefyd.

Mae nifer yr achosion o'r clefyd yn cynyddu. Ar ddiwedd 2012 roedd 2,700 hectarau o goed llarwydd wedi eu heffeithio. Erbyn mis Mawrth 2016, gwelwyd cynnydd dramatig, gyda 8,661 o hectarau o goed llarwydd wedi eu heffeithio. Mae hwn yn ffigur is nag a gofnodwyd yn natganiad y llynedd ac mae oherwydd ailfapio hysbysiadau Statudol ar gyfer Iechyd Planhigion ar hyd priffyrdd. Ni wnaeth y clefyd ledaenu cymaint yn ystod 2014 a 2015, yn fwyaf tebygol oherwydd patrymau tywydd yn ystod yr haf/hydref blaenorol.

Cafodd Ardal Graidd y Clefyd ("CDZ") ei sefydlu fel rhan o'r strategaeth rheoli clefydau ar gyfer *Phytophthora ramorum* a chafodd ei ddiwygio ym mis Ionawr 2014. Nid oedd unrhyw newidiadau pellach i Ardal Graidd y Clefyd yn 2014 na 2015.



Map 4: Dosbarthiad o'r P. Ramorum yng Nghymru



Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

***Chalara fraxinea* (Clefyd coed ynn)**


Mae'r clefyd hwn wedi effeithio eisoes ar gyfran uchel o goed ynn mewn llawer o wledydd Gogledd Ewrop. Canfuwyd y clefyd am y tro cyntaf ym Mhrydain mewn planhigfa yn Swydd Buckingham ym mis Chwefror 2012. Ym mis Hydref 2012, fe'i canfuwyd hefyd yn yr amgylchedd ehangach mewn coetir yn nwyrain Lloegr a de Cymru.

Gall y clefyd fod yn fygythiad difrifol iawn. Mae wedi achosi niwed mawr i goed ynn yn Ewrop, ac amcangyfrifir bod rhwng 60 a 90 y cant o goed ynn Denmarc wedi'u colli. Byddai effeithiau'r clefyd hwn yr un mor ddifrifol ar amgylchedd naturiol Prydain. Mae profiad gwledydd y cyfandir yn dangos bod y clefyd yn lladd coed ynn ifanc yn gyflym iawn, tra bo coed hŷn yn tueddu i'w wrthsefyll am ychydig cyn cael eu lladd ar ôl bod mewn cysylltiad â'r clefyd am amser hir.

Mae *Chalara* yn cael ei drin fel clefyd cwarantîn o dan fesurau argyfwng cenedlaethol, ac mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw achos posibl. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal arolygon yn ddiweddar o safleoedd sydd wedi'u plannu yn ddiweddar i nodi i ba raddau y mae'r clefyd wedi amharu ar goed ifanc.

Mae y clefyd coed ynn bellach i'w weld ledled Cymru. Mae gwaith arolygu wedi canolbwyntio ar nodi'r gridiau 10km ble nad oes tystiolaeth o'r clefyd (gweler map 5). Mae arolwg 2015 wedi dangos bod 30% o'r sgwariau grid 10km wedi dangos rhai arwyddion o'r clefyd a oedd yn amharu ar goed ieuengach yn bennaf ar hyd ochr y ffyrdd a pherthi.

Map 5: Dosbarthiad *C. fraxinea* yng Nghymru



Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru




**Malltod Nodwyddau *Dothistroma***

Mae'r clefyd hwn yn un pwysig yn economaidd ac mae'n effeithio ar goed conwydd, yn arbennig coed pinwydd yr Alban, coed pinwydd Corsica a choed pinwydd polion. Mae tua 14,000 hectar ohonynt yng Nghymru. Mae'r clefyd yn golygu bod llai o bren yn cael ei gynhyrchu a gall heintiad difrifol ladd y coed. Dechreuodd ledaenu ddiwedd 1990au, ac erbyn 2006, roedd wedi heintio 70% o glystryrau coed pinwydd Corsica ym Mhrydain. Dangosodd arolygon ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn 2012 fod dros 80% o glystryrau coed pinwydd Corsica, tua 30% o glystryrau coed pinwydd yr Alban a 3% o glystryrau coed pinwydd polion wedi eu heintio erbyn hyn.

**Cancr Diferol mewn Castanwydd**

Clefyd yw hwn sy'n effeithio ar gastanwydd. Dechreuodd ledaenu yn y 1970au ac erbyn 2007, roedd wedi heintio 36% o gastanwydd Cymru. I ddechrau, mae'r clefyd yn anharddu boncyffion a changhennau, ond gall ladd y goeden yn y pen draw.

**Map 6: Dosbarthiad Dirywiad Gwyllt Coed Derw**

AOD sites  
(All positive sites to March 2016)

**Dirywiad Gwyllt Coed Derw**

Cadarnhawyd bod nifer o goed unigol ar hyd y gororau wedi'u heintio a bod achosion amheus, sydd heb eu cadarnhau, mewn rhannau eraill o Gymru (gweler Map 6). Mae'r clefyd yn fygythiad difrifol i'r dyfodol ac mae angen ei fonitro.

**Llyslau y Sbrwisen Werdd**

Mae llyslau y Sbrwisen Werdd (*Elatobium abietinum*) wedi achosi i nifer sylweddol o goed sbrwisen ledled Cymru i golli eu nodwyddau yn ystod 2015. Yn ystod misoedd yr haf, mae'r llyslau yn bwydo ar nodwyddau sy'n dros flwydd oed gan adael nodwyddau newydd. Yn ystod y gaeaf, os yw'r llyslau yn dal i fwydo, bydd yn ymosod ar nodwyddau o bob oedran, gan arwain at golli nodwyddau'n gyfan-gwbl mewn achosion difrifol.

Nid yw'r llyslau hwn yn lladd y goeden ar unwaith, ond mewn achosion difrifol bydd yn golygu bod tyfiant (cynhyrchiant) yn cael ei arafu ac o bosibl yn gwario y goeden gan olygu ei bod yn haws i blâu a chlefyddau eraill ymosod arni.

**Malltod *Sirococcus* neu Falltod Cedrwydden**

Ers 2013, mae malltod difrifol ar egin Cederwydden yr Iwerydd, a cholli nodwyddau wedi ei nodi o amrywiol leoliadau ym Mhrydain. Y rheswm a roddwyd am hyn gan Forest Research oedd *Sirococcus tsugae* ar ddiwedd 2013. Gall y ffwng achosi i hyd at 70% o'r goeden yn colli ei nodwyddau, ac os yw'r cancr yn effeithio ar y prif goesyn (a'i fod wedi creu cylch o'i amgylch), mae'n bosib y bydd y goeden yn marw.

Mae coed Cedrwydden a Hemlog yn rywogaethau addurnol a choedwigaeth gwerthfawr ym Mhrydain. Er bod llawer o ansicrwydd ynghylch dosbarthiad daearyddol ac effaith bosibl *S.tsuggae* ym Mhrydain, mae'r posibilrwydd y bydd yn creu difrod i goed addurnol gwerthfawr mewn gerddi cyhoeddus a phreifat a cholledion economaidd, yn enwedig ar gyfer y sector coed ifanc. Yn ystod 2015, gwelwyd bod nifer o goed cedrwydden wedi'u heintio, yn enwedig yn y gogledd-ddwyrain.

#### **Arolygon Parth Gwarchod**

Cynhaliwyd nifer o arolygon ledled Cymru er mwyn sicrhau Statws Parth Gwarchod Prydain ar gyfer amrywiol rywogaethau. Mae'r rhywogaethau'n cael eu monitro oherwydd eu bod yn cynnwys nifer o chwilog rhisgl, Gwffynod Derw, Malltod Cnau Castan a Gwenynod Cnau Castan. Hefyd, cynhaliwyd arolygon o dan fesurau brys yr UE ar gyfer nematodau Pinewood a Chancr Pinwydd Pyg. Nid oes unrhyw un o'r rhywogaethau uchod wedi eu canfod.

#### **Gwyddoniaeth Dinasyddion**

Mae'r prosiect Observatree yn brosiect ym Mhrydain sy'n cael ei gefnogi gan gyllid Ewropeaidd gyda'r nod o ddiogelu coed, coetiroedd a choedwigoedd Prydain rhag plâu a chlefydau. Mae prosiect wedi hyfforddi nifer o wirfoddolwyr ledled Cymru i roi rhybudd cynnar o blâu a chlefydau newydd. Caiff y gwirfoddolwyr eu hyfforddi gan wyddonwyr Forest Research a staff maes Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chefnogaeth Coed Cadw. Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn cadw golwg ar goetiroedd yng Nghymru.

## 9. Manteision lleol coetiroedd

### Pwyntiau allweddol


- Mae canran y bobl sy'n nodi o leiaf un fantais i goetiroedd wedi gostwng 4 pwynt canran ers 2009.
- Mae canran y bobl sy'n nodi o leiaf un anfantais i goetiroedd wedi gostwng 5 pwynt canran ers 2009
- Nododd bron naw allan o ddeg o bobl (94%) o leiaf un fantais i gymunedau lleol o gael coetiroedd, a nododd bron dwy ran o bump (38%) o leiaf un anfantais

### Data

Ers 2005, mae Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth wedi holi ymatebwyr ynglŷn â'u canfyddiad o fanteision coetiroedd i gymunedau lleol, ac ers 2009 mae wedi'u holi ynglŷn â'u canfyddiad o anfantais coetiroedd. Yn 2013, gofynnwyd cwestiynau newydd ynglŷn â chanfyddiad ymatebwyr o fanteision ac anfantais coed trefol.

a) Newidiadau yng nghanfyddiad pobl o fanteision i gymunedau lleol


### Siart 15: Manteision coetiroedd i gymunedau lleol



Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth


b) Newidiadau yng nghanfyddiad pobl o anfantais i gymunedau lleol:

**Siart 16: Anfantais coetiroedd i gymunedau lleol**



Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

**Siart 17: Pobl yn nodi o leiaf un fantais neu anfantais**



\*Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2005

Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth



### c) Manteision ac anfanteision coed trefol

Nododd 94% o'r rhai a ymatebodd i Arolwg Barn y Cyhoedd diwethaf ar Goedwigaeth o leiaf un mantais i gymunedau lleol o gael coetiroedd, tra bod 38% wedi nodi o leiaf un anfantais. Y fantais fwyaf poblogaidd a ddewiswyd oedd eu bod yn 'darparu lle i fywyd gwyllt fyw', a'r anfantais fwyaf poblogaidd a ddewiswyd oedd bod coetiroedd yn golygu 'y bydd gweithgarwch troseddol' yn digwydd yno.

### Perthnasedd

Dyma bedwar o ganlyniadau dymunol y strategaeth: (i) bod coetiroedd yn cael eu haddasu'n well er mwyn darparu amrywiaeth eang o fanteision, (ii) bod coetiroedd a choed trefol yn cynnig amrywiaeth eang o fanteision, (iii) bod mwy o gymunedau'n manteisio ar goetiroedd a choed, a (iv) bod mwy o bobl yn mwynhau'r manteision dysgu gydol oes sy'n gysylltiedig â choetiroedd a'u cynhyrchion.

Wrth i'r canlyniadau hyn gael eu gwredden, rydym yn disgwyl gweld newidiadau yng nghanfyddiadau pobl o fanteision coetiroedd a choed trefol lleol i'w cymunedau. Mae'r dangosydd hwn yn monitro'r canfyddiadau hynny gan ddefnyddio data a gasglwyd o Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth a gynhelir bob dwy flynedd. Dyma'r tueddiadau dymunol:

- a) Mwy o bobl yn nodi bod coetiroedd yn dod â nifer o fanteision i gymunedau lleol
- b) Canrannau uwch o bobl yn nodi manteision unigol
- c) Canrannau is o bobl yn nodi anfanteision unigol
- d) Mwy o bobl yn nodi manteision coed trefol neu goed ar stryd

### Nodiadau

I gael rhagor o wybodaeth am y data ar goed trefol, gweler 6. Coetiroedd a Choed Trefol.



## 10. Cynnwys cymunedau

### Pwyntiau allweddol

- Dangosodd Arolwg Barn y Cyhoedd o Goedwigaeth 2015 bod cynnydd sylweddol yng nghanran yr aelwydydd sy'n gysylltiedig ag addysg coetiroedd, gan gynyddu 9 pwynt canran ers 2013. Hefyd mae canran yr oedolion sy'n gwirfoddoli yn y coetiroedd wedi cynyddu 2 bwynt canran rhwng 2013 a 2015.
- Bu sefydlogrwydd yng nghanran y bobl yr ymgynghorwyd â nhw am gynlluniau coetiroedd, a chanran aelodaeth grwpiau coetir cymunedol.
- Mae ein data diweddaraf yn dangos y bu cynnydd mawr yn arwynebedd y tir sy'n cael ei lesio neu sy'n berchen i grwpiau cymunedol rhwng 2008 a 2010.
- Bu gostyngiad yn nifer y grwpiau coetir cymunedol ond cynnydd yn arwynebedd y tir y maent yn ei brydlesu, yn berchen arno neu yn ei reoli.

### Data

**Tabl 6: Bod yn gysylltiedig â choetiroedd**

	Llinell sylfaen (%)	Dyddiad Llinell sylfaen	2015 (%)
Ymgynghori ar gynlluniau coetiroedd (% oedolion)	6	2003	5
Aelodaeth o grwpiau coetir cymunedol (% oedolion)	2	2005	3
Yn gysylltiedig ag addysg coetiroedd (% aelwydydd)	15	2005	27
Y nifer sy'n gwirfoddoli mewn coetiroedd (% oedolion)	3	2009	5

Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

**Tabl 7: Grwpiau cymunedol**

	2008	2010	2016
Nifer y grwpiau coetir cymunedol gweithredol	145	138	76
Arwynebedd y tir yn cael ei lesio gan grwpiau coetir cymunedol, neu sy'n eiddo iddynt (Hectar)	233 Hectar	624 Hectar	1706 Hectar

Ffynonellau: Adroddiadau prosiect Cydcoed, Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o Grwpiau Coetir Cymunedol yng Nghymru 2010; ffurflenni aelodaeth coetiroedd cymunedol Llais y Goedwig 2016. Gan y daw y data o wahanol ffynonellau, nid yw'n bosib eu cymharu..

### Perthnasedd

Dau o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy o gymunedau yn cyfrannu at benderfyniadau yn ymwneud â choetiroedd a'r gwaith o reoli coetiroedd, a hynny fel y bo coetiroedd yn cynnig rhagor o fanteision ar lefel gymunedol, a bod mwy o bobl o bob oedran yn manteisio ar ddefnyddio coetiroedd fel lleoliadau ar gyfer dysgu a chwarae. Mae'r dangosydd hwn yn monitro cyfran y boblogaeth sy'n gysylltiedig â choetiroedd.

# 11. Gweithgareddau hamdden

## Pwyntiau allweddol

- Mae Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth 2015 yn nodi bod 64% o oedolion a holwyd yng Nghymru wedi ymweld â choetiroedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn ystod y 12 mis diwethaf
- Roedd tua hanner (52%) o'r holl ymweliadau awyr agored yn cynnwys treulio amser mewn coetiroedd
- Cerdded yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd yn 2014.
- Coetiroedd oedd yr ail hoff gyrchfan yn yr awyr agored.

## Data

a) Canran yr oedolion yn ymweld â choetiroedd 2013-2015

**Siart 18: Canran yr oedolion sydd wedi ymweld â choetiroedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**



Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth; dim data ar gael ar gyfer 2009

Yn 2015, roedd 64% o oedolion a arolygwyd yng Nghymru wedi ymweld â choetir yn y 12 mis diwethaf, oedd yr un fath â 2013; fodd bynnag mae 15 pwynt canran yn is na'r ffigur o 79% a gofnodwyd yn 2007. O'r ymatebwyr oedd wedi ymweld â choetir yn y 12 mis diwethaf, roedd bron i ddwy ran o dair (64%) ohonynt wedi ymweld â choetiroedd yng nghefn gwlad ar eu hymweliad diwethaf yn hytrach na choetiroedd mewn neu gerllaw trefi. Y rheswm mwyaf poblogaidd a roddwyd gan ymatebwyr i pam nad oeddent wedi ymweld â choetir yn y 12 mis diwethaf oedd eu bod yn rhy brysur/dim digon o amser.

b) Math o weithgareddau sydd mewn coetiroedd


Cynhaliwyd Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru am y tro cyntaf yn 2008, ac yna yn 2011 a 2014. Yn 2011, coetir oedd y prif le yr ymwelwyd ag ef mewn 18% o'r ymweliadau mwyaf diweddar; erbyn 2014, roedd hyn wedi gostwng i 15%. Fodd bynnag, yn 2014, coetiroedd oedd yr ail gyrchfan fwyaf

boblogaidd yn yr awyr agored, yn ail i barciau lleol. Dywedodd 12% y byddent yn hoffi ymweld â choetir yn amlach (o gymharu â 13% yn 2011). Roedd y galw yn y dyfodol am ymweliadau â choetiroedd o fwy o ddiddordeb i ymatebwyr oedd â phlant (15%) a'r rhai yn y 10% isaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (19%). Roedd tua hanner yr ymweliadau awyr agored (52%) gan ymatebwyr yn ddiweddar yn cynnwys amser a dreuliwyd mewn coetir, cynnydd graddol o 2008 (36%) a 2011 (41%).

O ran ymweliadau â choetiroedd:

- Y rhai oedd yn fwyaf tebygol o ymweld â choetir oedd pobl rhwng 16-24 mlwydd oed (57%), y rhai sy'n byw yng Ngogledd Cymru (56%), perchnogion cŵn (56%), y rhai mewn gwaith (56%) a dynion (56%).
- Roedd gan goetiroedd ganran gwariant llawer is gan ymwelwyr na'r cyfartaledd ar 23% o ymweliadau o gymharu â'r cyfartaledd o 42%. Roedd lefelau gwariant ar ei uchaf yn ystod ymweliadau â'r môr (74% o ymweliadau). Bwyd a diod (30%) a thanwydd (18%) oedd yn cyfrif am y categorïau uchaf o wariant.

**Siart 19: Gweithgareddau yn ystod ymweliadau â choetiroedd yn y 12 mis diwethaf**



% y bobl sydd wedi gwneud y gweithgarwch hwn yn y 12 mis diwethaf

Ffynhonnell: Arolwg Hamdden yn yr Awyr Agored Cymru

Er bod poblogrwydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau wedi parhau'n weddol sefydlog, dylid nodi bod cerdded wedi parhau i fod y gweithgarwch mwyaf poblogaidd. Roedd yn arbennig o boblogaidd gyda pobl â phlant (93%), perchnogion cŵn (90%) a'r rhai cyflogedig. Yr unig weithgareddau y

nodwyd fod mwy yn cymeryd rhan o gymharu â 2011 oedd rhedeg a nofio yn yr awyr agored. Roedd pwyntiau canran pob gweithgarwch arall wedi aros oddeutu yr un fath neu wedi gostwng.

#### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy a mwy o bobl yn byw bywydau iachach yn sgil defnyddio a mwynhau coetiroedd. Mae'r dangosydd hwn yn ystyried y defnydd o goetiroedd ar gyfer gweithgareddau hamdden goddefol a gweithredol.

#### Nodiadau

Cafodd geiriad Arolwg Barn y Cyhoedd o Goedwigoedd ei newid yn 2015 i ganolbwyntio ar ymweliadau oedd wedi digwydd yn y 12 mis diwethaf yn hytrach nag yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf (sef geiriad yr arolwg blaenorol). Felly nid oedd modd cymharu rhai o'r canlyniadau yn uniongyrchol â ffigurau o flynyddoedd blaenorol.

## 12. Hygyrchedd


### Pwyntiau allweddol

- Dywedodd 64% o ymatebwyr i'r Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth diwethaf eu bod yn gallu cyrraedd coetir yn hawdd heb gar neu drafnidiaeth arall
- Mae canran y bobl sy'n dweud hynny wedi parhau'n weddol sefydlog dros y 10 mlynedd ddiwethaf.
- Mae canran y bobl sy'n byw o fewn 4km i 20 hectar o goetir wedi cynyddu yn raddol rhwng 2004 a 2012.

### Data

#### a) Data cryno


#### Siart 20: Canran yr oedolion â mynediad hawdd i goetir heb gar



Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth; dim data ar gael ar gyfer 2007

Mae Safon Mynediad Coetiroedd Coed Cadw yn awgrymu y dylai pawb allu cyrraedd o leiaf 2ha o goetir o fewn 500m o'u cartref a hefyd o leiaf 20ha o goetir o fewn 4km o'u cartref. Mae'r data isod yn dangos i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni hyn yng Nghymru hyd yma.

#### Siart 21: Canran y boblogaeth â mynediad i goetiroedd



Ffynhonnell: 'Space for People', Coed Cadw

Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd mawr yng nghanran y boblogaeth sydd â mynediad i 2 hectar+ o goetir o fewn 500m o'u cartrefi a mynediad i 20 hectar+ o goetir o fewn 4km i'w cartrefi rhwng 2004 a 2012.

**Tabl 8: Ardal drefol â mynediad i goetir**

	Canran yr ardal drefol, 2014	Canran yr ardal drefol, 2009	Canran yr ardal drefol, 2012
<b>Mynediad i 2ha+ o goed o fewn 500m</b>	15.7	17.4	22.8
<b>Mynediad i 20ha+ o goed o fewn 4km</b>	72.3	76.7	80.8

Ffynhonnell: 'Space for People', Coed Cadw

b) Data ar gyfer ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd iechyd

Mae'r tabl canlynol yn dangos data ar goetiroedd â mynediad cyhoeddus yn y pedair sir â'r lefelau uchaf o amddifadedd iechyd yng Nghymru.

**Tabl 9: Mynediad i goetiroedd ar gyfer ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd iechyd**

	% y boblogaeth â mynediad i 2ha+ o goed o fewn 500m			% boblogaeth â mynediad i 20ha+ o goed o fewn 4km		
	2004	2009	2012	2004	2009	2012
<b>Blaenau Gwent</b>	32	43.9	43.1	99.8	93.4	99.3
<b>Merthyr Tudful</b>	26	34.9	35.1	98.0	90.9	94.0
<b>Castell-nedd Port Talbot</b>	32	22.6	22.4	97.0	98.4	98.2
<b>Rhondda Cynon Taf</b>	32	36.6	35.5	99.9	99.8	99.8

Ffynhonnell: Space for People, Coed Cadw

Gwelodd Blaenau Gwent a Merthyr Tudful ill dau gynnydd mawr yn y ganran o'r boblogaeth oedd â mynediad i 2 hectar+ o goetiroedd o fewn 500 m i'w cartrefi rhwng 2004 a 2012, tra bo Castell-nedd Port Talbot wedi gweld gostyngiad mawr o ran pwynt canran.

Yn ddiddorol iawn Castell-nedd Port Talbot oedd yr unig sir i weld cynnydd cyffredinol yn y pwynt canran o'r boblogaeth oedd â mynediad i 20 hectar+ o goetiroedd o fewn 4km i'w cartrefi rhwng 2004 a 2012 allan o'r 4 sir yn y tabl uchod.

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy o bobl yn byw bywydau iachach yn sgil defnyddio a mwynhau coetiroedd. Un o'r nodau yw annog a hyrwyddo mynediad i goetiroedd ledled Cymru, gan ddarparu seilwaith addas a choetiroedd sy'n cael eu rheoli'n dda ac sy'n teimlo'n ddiogel a chroesawgar. Mae'r dangosydd hwn yn ystyried faint o goetiroedd sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd, a gellir ei ddadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol.



## 13. Mentrau lleol

### Pwyntiau allweddol

- Mae nifer y swyddi yn y sector coedwigaeth a nifer y busnesau wedi parhau'n weddol sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf.
- Mae rhwng 8,500 a 11,300 o bobl yn gweithio yn y sector coedwigaeth yng Nghymru.

### Data

**Tabl 10: Amcangyfrifon o weithwyr cyflogedig y sector coedwigaeth ar hyn o bryd**


	Unedau busnes (2015)	Gweithwyr (2014)	
		Llawm amser	Rhan-amser
Coedwigaeth a thorri a thrin coed (SIC 02)	290	1,400	400
Gweithgynhyrchu coed a chynhyrchion coed a chorc (SIC 16)	370	5,000	400
Gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur (SIC 17)	55	3,800	100
<b>Cyfanswm</b>	<b>715</b>	<b>10,200</b>	<b>900</b>

Ffynhonnell: Arolwg Cyflogaeth a Chofrestr Busnes (BRES), gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos y gall fod 2,000 o bobl hunangyflogedig yn gweithio yn y sector hefyd, (mae'r data hwn yn seiliedig ar lefel isel yr ymatebion i'r arolwg ac mae wedi'i gatgoreiddio fel data o ansawdd gwael). Fel cyfanswm, gallai 13,100 o bobl fod yn gweithio yn y sector bellach.


Wrth roi'r ffigurau hyn yn eu cyd-destun, amcangyfrifir bod 133,300 o bobl yn gweithio yn y sector coedwigaeth ledled y DU ac efallai fod 29,900 pellach yn hunangyflogedig. Mae hyn yn golygu bod un o bob 13 o'r holl bobl sy'n gweithio yn y sector coedwigaeth yn y DU, yn gweithio yng Nghymru.

**Siart 22: Newidiadau o ran niferoedd gweithwyr cyflogedig**



Ffynhonnell: Cofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES), gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU.

Siart 23: Newidiadau o ran nifer y busnesau



Ffynhonnell: Cofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES), gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU.

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy o bobl yn elwa ar fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd, ac un o'r nodau yw bod mwy o bobl yn rhedeg busnesau, yn meithrin sgiliau ac yn creu swyddi mewn mentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd a phren. Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i fonitro:

- Nifer y mentrau cysylltiedig â choetiroedd yng Nghymru, gan gynnwys busnesau sydd wedi cael eu cofrestru at ddibenion TAW a busnesau sydd heb gael eu cofrestru at ddibenion TAW.
- Brasamcan o'r nifer sy'n cael eu cyflogi gan y mentrau hyn; ac
- Amcangyfrif o nifer y bobl hunan-gyflogedig sy'n gweithio yn y sector.

### Nodiadau

Dylid nodi y gellid ystyried bod busnesau eraill nad ydynt yn rhan o'r sectorau uchod yn cael eu cefnogi'n llawn neu'n rhannol gan goedwigaeth hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r dosbarthiadau SIC a ddefnyddir ar hyn o bryd yn caniatáu inni gynnwys y busnesau hynny. Yn benodol, nid oes amcangyfrif o nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi mewn busnesau hamdden mewn coetiroedd.

Cafodd pob ffigur sy'n gysylltiedig ag unedau Busnes eu diweddarau ddiwethaf yn 2015, a chafodd rhifau gweithwyr eu diweddarau ddiwethaf yn 2014.

## 14. Defnydd o bren Cymru


### Pwyntiau allweddol

- Mae cyfran y pren meddal sydd ar gael wedi ei gynaeafu eleni yn parhau i fod ar lefel dderbyniol, fodd bynnag mae'r gymhareb cynaeafu pren meddal ac argaeledd dros y 10 mlynedd diwethaf ychydig yn rhy uchel (86 y cant, a dylai fod yn is na'r ffigwr hwn).
- Mae dros 60% o foncyffion Cymru yn cael eu prosesu mewn melinau llifio yng Nghymru.

### Data

#### a) Cyfanswm y gymhareb cynaeafu/argaeledd

Siart 24: Pren a gynaeafwyd



Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Rhagolygon Cynhyrchu'r Comisiwn Coedwigaeth, dadansoddiad o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

Y prif bethau i'w nodi o Siart 24 yw bod argaeledd pren caled wedi gostwng yn 2013, sy'n cael ei egluro yn yr adran nodiadau, ac ers 2008 mae'r galw am bren meddal a'r argaeledd wedi codi.


Tabl 11: Cymarebau cynaeafu/argaeledd

Year	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	
Pren meddal (%)	85	91	98	95	87	76	76	
Pren meddal - cyfartaledd dros 10 mlynedd (%)	77	80	83	86	87	87	87	
Pren caled (%)	8	8	8	7	7	7	5	
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
	80	73	85	88	98	94	97	90
	86	85	85	85	86	85	86	86
	6	5	7	7	7	7	84	84

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Rhagolygon Cynhyrchu'r Comisiwn Coedwigaeth, dadansoddiad o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

Yn ddiweddar, mae'r cymarebau pren meddal a phren meddal treigl dros 10 mlynedd ar gyfartaledd wedi aros yn gymharol gyson. Am esboniad o'r cynnydd mawr yn y gymhareb argaeledd pren caled, gweler y nodyn ar ddiwedd yr adran hon.

**Siart 25: Cymarebau cynaeafu/argaeledd**



Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Rhagolygon Cynhyrchu'r Comisiwn Coedwigaeth, dadansoddiad o ddata Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed


b) Cyfran o foncyffion Cymru a broseswyd yng Nghymru

**Tabl 12: Boncyffion o Gymru a gyflenwyd i felinau llifio yn y DU (mil tunnell wyrdd)**

Blwyddyn	Location of sawmill				Blwyddyn	Location of sawmill			
	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Cyfanswm y DU		Cymru	Lloegr	Yr Alban	Cyfanswm y DU
2005	447	198	0	645	2010	419	147	2	568
2006	455	229	0	684	2011	477	233	1	710
2007	476	211	0	688	2012	485	277	5	767
2008	428	204	0	632	2013	520	276	5	801
2009	399	192	0	591	2014	560	311	0	871

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

**Siart 26: Canran y boncyffion o Gymru a broseswyd yng Nghymru**




Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

Mae Tabl 12 yn dangos, ers 2010, bod y tunelledd boncyffion o Gymru sydd wedi'u hanfon i felinau coed yn y DU wedi cynyddu, ac mae Siart 26 yn dangos bod y canran o foncyffion o Gymru sydd wedi'u prosesu yng Nghymru wedi aros yn weddol gyson dros y cyfnod o 10 mlynedd rhwng 2005 a 2014, gan aros rhwng 63 a 69 pwynt canran.


c) Ffynhonnell y pren a gyflenwyd i broseswyr pren sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru (llinell sylfaen 2010)

**Siart 28: Ansawdd y pren a ddefnyddiwyd yn ôl ffynhonnell**



Ffynhonnell: Comisiwn Coedwigaeth Cymru: arolwg o fentrau coetir

**Siart 28: Ansawdd y pren a ddefnyddiwyd yn ôl ffynhonnell**



Ffynhonnell: Comisiwn Coedwigaeth Cymru: arolwg o fentrau coetir

Mae'r siartiau uchod yn dangos bod y proseswyr sylfaenol yng Nghymru yn tueddu i weld cyfran uwch o'u coed o Gymru; ac eto mae proseswyr eilaidd yng Nghymru yn cael y rhan fwyaf o'u coed o dramor.

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy o bren a dyfir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Bydd gwireddu'r canlyniad hwnnw yn helpu i wireddu un o'r canlyniadau

eraill hefyd: bod coetiroedd Cymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn monitro cyfran y coed sydd ar gael sy'n cael ei chynaeafu (yn ôl rhagolygon y pren meddal fydd ar gael), a'r gyfran sy'n cael ei phrosesu yng Nghymru er mwyn ychwanegu gwerth. Dyma'r tueddiadau dymunol:

- a) Bod cyfanswm y gymhareb cynaeafu/argaeledd yn cynyddu, ond yn bennaf trwy gynnydd yng nghyfanswm y pren caled sy'n cael ei gynaeafu.
- b) Bod y gymhareb cynaeafu/argaeledd ar gyfer pren meddal yn cael ei chadw o dan 86%, ar gyfartaledd, dros gyfnod o o 10 mlynedd, a rhwng 77% a 98% yn flynyddol.
- c) Bod cyfran y coed o Gymru sy'n cael ei phrosesu yng Nghymru yn cynyddu.

#### Nodiadau

Cyn 2013, amcangyfrifwyd y rhagolygon o'r pren caled a fyddai ar gael drwy ddefnyddio data NIWT. Ers hynny, datblygwyd rhagolygon manylach o'r pren caled a fyddai ar gael dros gyfnod o 50 mlynedd. Mae'r rhagolygon hynny'n dangos y bydd llawer llai o bren caled ar gael nag y tybiwyd cynt, a dyna'r rheswm dros y cynnydd dramatig yn y gymhareb cynaeafu/argaeledd ar gyfer pren caled, a'r gostyngiad yn argaeledd pren caled.

## 15. Gwerth y sector coedwigaeth

### Pwyntiau allweddol

- Mae data diweddar yn nodi bod cyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y sector coedwigaeth yn £528.6 miliwn
- Mae GVA y sector coedwigaeth wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae bellach yn uwch nag oedd yn 2005
- Mae GVA y sector coedwigaeth yng Nghymru wedi gostwng a chodi'n gyflymach nag yn y DU yn gyffredinol.


### Data

**Tabl 13: Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru.**

	GVA (£miliwn)
Coedwigaeth a thorri coed (SIC 02)	22.3
Gweithgynhyrchu pren a chynhyrchion pren a chorc (SIC 16)	172.6
Gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur (SIC 17)	333.7
<b>Cyfanswm</b>	<b>528.6</b>

Ffynhonnell: Arolwg Busnes Blynyddol, Arolwg Poblogaeth Blynyddol ac Adroddiadau Rhanbarthol, Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU

**Siart 29: Newid dros amser o ran Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)**




Ffynhonnell: Arolwg Busnes Blynyddol, Arolwg Poblogaeth Flynyddol ac Adroddiadau Rhanbarthol, Swyddfa Ystadegau Gwladol



Mae'r siart isod yn dangos GVA y sector coedwigaeth yng Nghymru o gymharu â'r DU yn gyffredinol, gan ddefnyddio 2005 fel blwyddyn sylfaen.

**Siart 30: Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) sector coedwigaeth Cymru o gymharu â'r DU**



Ffynhonnell: Arolwg Busnes Blynyddol, Arolwg Poblogaeth Blynyddol ac Adroddiadau Rhanbarthol, Swyddfa Ystadegau Gwladol

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod y sector coedwigaeth yn cael ei integreiddio'n well, a'i fod yn fwy cystadleuol ac yn cefnogi economi Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar gyfraniad y sector coedwigaeth i economi Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon o Werth Ychwanegol Gros o'r data a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### Nodiadau

Dylid nodi y gellid ystyried bod busnesau eraill nad ydynt yn rhan o'r sectorau uchod yn rhai sy'n cael eu cynnal yn llawn neu'n rhannol gan goedwigaeth hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r dosbarthiadau SIC a ddefnyddir ar hyn o bryd yn caniatáu inni gynnwys y busnesau hynny. Yn arbennig, nid oes amcangyfrif o GVA busnesau hamdden sy'n dibynnu ar goetiroedd ar gael.

Defnyddiwyd methodoleg newydd i gyfrifo'r ffigurau yn adroddiad 2013-14, ac felly ni ddylid cymharu'r ffigurau hyn (a ffigurau yn y dyfodol) â'r ffigurau mewn adroddiadau cyn 2013-14.

## 16. Y galw am bren

### Pwyntiau allweddol

- Mae defnydd ymddangosol y DU o bren cyfwerth â 53 miliwn m<sup>3</sup> o ddeunyddiau pren crai
- Mae defnydd ymddangosol y DU o bren wedi gostwng ers 2002
- Mae defnydd ymddangosol y DU o bapur wedi gostwng ers 2002, ond mae'r defnydd o bapur glanweithiol a phapurau'r cartref wedi cynyddu yn raddol yn ystod y cyfnod.

### Data

Siart 31: Defnydd ymddangosol y DU o gynhyrchion pren



Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

Tabl 14: Defnydd ymddangosol y DU yn ôl math o gynnyrch (mil m<sup>3</sup>)

Flwyddyn	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
<b>Pren wedi'i lifo</b>	10,518	11,092	11,059	10,655	10,278	10,717	8,482
<b>Pren haenog</b>	1,082	1,188	1,385	1,302	1,371	1,555	1,431
<b>Bwrdd gronynnau</b>	3,372	3,502	3,670	3,513	3,414	3,717	2,720
<b>Bwrdd ffibrau</b>	1,660	1,616	1,729	1,566	1,506	1,627	1,269
<b>Total</b>	16,632	17,398	17,843	17,036	16,569	17,616	13,902
Cyfanswm	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
	7,908	8,605	8,041	8,448	8,911	10,013	9,629
	1,098	1,190	1,259	1,231	1,316	1,328	1,422
	2,756	2,965	3,025	2,492	2,837	3,081	3,127
	1,212	1,381	1,357	1,314	1,388	1,494	1,449
	12,974	14,141	13,252	13,504	14,474	15,937	15,639

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

Tabl 15: Defnydd ymddangosol y DU o bapur (mil o dunelli)

Flwyddyn	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
Papurau graffig (gan gynnwys aceri)*	6,847	6,641	7,270	7,080	7,540	7,251	6,690
Papurau glanweithiol	907	917	935	928	935	973	913
Deunyddiau pacio	3,603	3,241	3,307	3,164	3,287	3,535	3,424
Papur/byrddau papur arall	597	1,094	624	631	583	383	347
Cyfanswm	11,954	11,893	12,136	11,803	12,345	12,142	11,374
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
	5,761	5,351	5,646	4,685	4,488	4,455	4,134
	1,065	886	1,129	1,133	1,159	988	999
	3,325	3,341	3,280	3,327	3,442	3,568	3,670
	266	325	199	247	273	316	281
	10,417	9,903	10,254	9,392	9,362	9,327	9,084

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

\* Ddefnydd papur ymddangosiadol y DU ar gyfer 2015 adroddiadau ffigur sengl ar gyfer papurau graffig a ailgylchwyd; ddibenion cymharu â ffigurau'r blynyddoedd blaenorol wedi'u cyfuno

#### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod pren yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol fel adnodd adnewyddadwy allweddol. Mae'r dangosydd hwn yn monitro'r galw am gynhyrchion pren yn y DU, gan nad oes data penodol i Gymru ar gael ar hyn o bryd.



## 17. Iechyd busnesau yn y sector coedwigaeth

### Pwyntiau allweddol


- Dros y tair blynedd rhwng 2007 a 2010, gwelodd ychydig dros draean o fusnesau ostyngiad yn eu trosiant, a dim ond ychydig o dan draean ohonynt a welodd unrhyw gynydd.
- Dywedodd pedwar o bob pump o fusnesau na fu unrhyw newid o ran nifer y gweithwyr
- Roedd y rhan fwyaf o fentrau yn hyderus ynglŷn â dyfodol eu busnes.

### Data

#### a) Canfyddiad o berfformiad yn y gorffennol

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau'r arolwg diweddaraf o fentrau coedwigaeth, a gynhaliwyd yn 2010, lle gofynnwyd i fusnesau nodi a oedd eu trosiant wedi cynyddu neu ostwng yn ystod y tair blynedd diwethaf.


Siart 32: Newidiadau o ran trosiant busnesau 2007 – 2010



Ffynhonnell: Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o fentrau coetiroedd

Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i fusnesau a oedd nifer y bobl a gyflogwyd ganddynt wedi cynyddu neu ostwng dros y tair blynedd diwethaf.

Rhoddodd yr arolwg o fentrau coetiroedd ganlyniadau pryderus o ran bod llai o drosiant yn mwyafrif y mentrau coetiroedd yn 2010 nag yn 2007, a'u bod yn cyflogi llai o bobl yn 2010 na 2007.

**Siart 33: Newidiadau o ran nifer y gweithwyr a gyflogwyd gan fusnesau 2007 – 2010**

Ffynhonnell: Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o fentrau coetiroedd


Mae hyn yn cymharu ag arolygon blaenorol 2007 a 2004, fel y gwelir isod.

**Tabl 16: Newidiadau o ran trosiant busnesau 2001- 2010**

% o fusnesau sy'n dweud bod:		2001 – 2004	2004 – 2007	2007 – 2010
<b>Trosiant</b>	Wedi cynyddu	14	63	27
	Wedi gostwng	33	4	35
<b>Nifer y gweithwyr</b>	Wedi cynyddu	Dim gwybodaeth	4	5
	Wedi gostwng	Dim gwybodaeth	29	16

Ffynhonnell: Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o fentrau coetiroedd


b) Disgwyliadau ar gyfer y dyfodol

**Siart 34: Hyder busnesau ar gyfer y dyfodol 2010 – 2013**

Ffynhonnell: Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o fentrau coetiroedd

Mae siart 34 yn awgrymu bod y rhan fwyaf o fusnesau yn 2010 yn disgwyl y byddai nifer y cyfleoedd yn y farchnad wedi cynyddu erbyn 2013, gan arwain at drosiant disgwyliedig uwch fel a welir yn Siart 35, fodd bynnag ni wyddom y canlyniadau gwirioneddol tan cyhoeddi arolwg arall.

**Siart 35: Disgwyliadau busnesau o ran trosiant ar gyfer 2010 – 2013**



Ffynhonnell: Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o fentrau coetiroedd

#### c) Rhwystrau a nodwyd gan fentrau

O ran busnesau sy'n gysylltiedig â phren, y prif rhwystrau a nodwyd yn yr arolwg oedd costau cynyddol offer, pren a thanwydd (15%), yr hinsawdd economaidd (15%), a diffyg galw am eu cynnyrch (7%). Dywedodd 4 y cant o fentrau fod diffyg pren yn rhwystr aruthrol.

O ran mentrau gweithgareddau hamdden mewn coetiroedd, y rhwystrau mwyaf a nodwyd yn yr arolwg oedd yr hinsawdd economaidd (22%), ac yna diffyg cyllid, grantiau neu fenthyciadau (11%). Dywedodd 5 y cant fod diffyg mynediad i goetiroedd yn rhwystr.

#### Perthnasedd

Dau o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod yna weithlu ffyniannus, crefftus yn y sector coedwigaeth a bod y sector coedwigaeth yn cael ei integreiddio'n well ac yn fwy cystadleuol, gan gefnogi economi Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn ystyried iechyd y sector coedwigaeth o ran gobeithion, rhwystrau a chyfleoedd busnes. Daw'r data o arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o fentrau coedwigaeth, a gynhaliwyd yn 2010. Mae'r dangosydd hwn yn cael ei adolygu a chaiff data newydd ei gyflwyno yn natganiad 2016-17.

## 18. Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol

Pwyntiau allweddol

- Mae'r sefyllfa bresennol o ran nodweddion coetiroedd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) yn un anffafriol yn bennaf.

Data

a) Arwynebedd y coetiroedd hynafol ac arwynebedd y planhigfeydd a adferwyd ar safleoedd coetir hynafol (PAWS).

Ym 1997, roedd 109,500 hectar o goetiroedd brodorol yng Nghymru, yn ôl y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed. Bydd y diweddariad nesaf ar gael y flwyddyn nesaf.

b) Gwella cyflwr coetiroedd brodorol

Rydym yn adrodd yma am linell sylfaen 1997 ar gyfer cyflwr coetiroedd brodorol. Ni fydd yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael nes y bydd y data o arolwg maes y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gael.

**Tabl 17: Cyflwr coetiroedd brodorol**

Dangosydd cyflwr	Gwerth	Sylw
Arwynebedd cymedrig gorchudd o lwyni fel canran o goetir brodorol	30	Rydym yn disgwyl i hwn aros yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir. Mae arwynebedd cymedrig llwyni yng Nghymru yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn yr Alban, yn sgil llai o bwysau pori o bosibl.
Nifer cymedrig y rhywogaethau coed/llwyni fesul chwarter hectar o goetir brodorol	4.27	Rydym yn disgwyl i hwn aros yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir.
Cyfaint cymedrig y pren marw mewn coetir brodorol (m <sup>3</sup> yr hectar)	0.6	Mae hwn llawer is na'r cyfaint o 20m <sup>3</sup> yr hectar sy'n ofynnol i gydymffurfio â Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU, a hefyd yn is na'r 4.4m <sup>3</sup> yr hectar a gofnodwyd ar gyfer yr Alban.
Canran y (i) coetir brodorol (ii) coetir derw sy'n hen dyfiant	(i) 23 (ii) 39	Yn y tymor hir, disgwylir y bydd cynnydd yng nghyfran y coetiroedd brodorol a fydd yn dod o dan y categori hen dyfiant. Er hynny, gallai plannu ardaloedd eang o goetiroedd brodorol newydd achosi i'r gyfran ostwng yn y tymor byr i ganolig.

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

c) Gwella cyflwr coetiroedd ar safleoedd dynodedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn monitro cyflwr nnodweddion coetiroedd o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth am yr asesiad cyflwr diweddaraf ar gyfer pob safle ac ar gyfer asesiadau cyflwr a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 1 Ionawr tan 31 Rhagfyr 2015. Mae'n bosib bod cyfnod sylweddol rhwng cwblhau y monitro a'r cofnodi terfynol o gyflwr nodwedd, gan olygu y gallai'r data newid wrth i asesiadau terfynol gael eu cwblhau.



Tabl 18: Nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn ôl cyflwr coetir yng Nghymru\*

	Asesiad mwyaf diweddar				Asesiadau 2010-15			
	Nifer o nodweddion	% o nodweddion	Ardal Ha	% Ardal	Nifer o nodweddion	Ardal Ha	% o nodweddion	% o ardal
Ffafriol: Cynnal	10	21.3	205.3	3.3	8	125.8	17	2
Ffafriol: adennill	2	4.3	37.6	0.6	2	37.6	4.3	0.6
Ffafriol: Ddiddosbarth	1	2.1	52.5	0.9	0	0	0	0
<b>Cyfanswm: Ffafriol</b>	<b>13</b>	<b>27.7</b>	<b>295.3</b>	<b>4.8</b>	<b>10</b>	<b>163.4</b>	<b>21.3</b>	<b>2.7</b>
Anffafriol: Adennill	4	8.5	560.6	9.1	3	520.6	6.4	8.5
Anffafriol: Gostwng	4	8.5	276.1	4.5	0	0	0	0
Anffafriol: Dim newid ddiddosbarth	26	55.3	5026.3	81.6	17	4384.3	36.2	71.2
<b>Cyfanswm: Anffafriol</b>	<b>34</b>	<b>72.3</b>	<b>5863</b>	<b>95.2</b>	<b>20</b>	<b>4905</b>	<b>42.6</b>	<b>79.6</b>
<b>NID YW ASESU</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>17</b>	<b>1089.9</b>	<b>36.2</b>	<b>17.7</b>
Adennill cyfanswm ffafriol anffafriol	17	36.2	855.9	13.9	13	684	27.7	11.1
Cyfanswm: Anffafriol: ddiddosbarth, nid oes unrhyw newid yn dirywio	30	63.8	5302.4	86.1	17	4384.3	36.2	71.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>47</b>	<b>100</b>	<b>6158.3</b>	<b>100</b>	<b>30</b>	<b>5068.4</b>	<b>63.8</b>	<b>82.3</b>

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

\*Nodiadau i Dabl 19: (a) caiff cynefinoedd eu hasesu a chaiff cyflwr ei neilltuo iddynt yn ôl nodwedd, gyda phob arwynebedd cynefin benodol ar safle benodol yn dod o dan y cyflwr cyffredinol hwnnw; (b) mae'r dosbarthiadau "anffafriol dim newid" ac "anffafriol di-ddosbarth" wedi eu cyfuno yn y tabl; ac mae (c) y cyfnod asesu 2010-15 yn rhedeg o 1 Ionawr 2010 tan 31 Rhagfyr 2015.

### Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn olrhain arwynebedd a chyflwr coetir brodorol yng Nghymru, a chyflwr y coetir ar safleoedd dynodedig neu hynafol. Dyma ganlyniadau dymunol perthnasol y strategaeth hon:

- Bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chynnal, a choetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol
- Bod coetiroedd a choed o werth cadwraeth arbennig yn cael eu rheoli'n ffafriol
- Bod dulliau rheoli coetiroedd yn cyrraedd safonau uchel o ran stiwardiaeth amgylcheddol

Dyma'r tueddiadau dymunol ar gyfer y dangosydd hwn felly:

- a) Cynyddu arwynebedd y coetiroedd brodorol
- b) Gwella cyflwr coetiroedd brodorol
- c) Gwella cyflwr coetiroedd ar safleoedd dynodedig
- d) Cynyddu arwynebedd y Safleoedd Coetir Hynafol a Blannwyd (PAWS) sydd naill ai wedi'u hadfer neu wrthi'n cael eu hadfer.

## 19. Rhywogaethau coetiroedd

Pwyntiau allweddol

- Mae niferoedd adar y coetir wedi parhau yn sefydlog ers 1994.

Data

a) Tueddiadau poblogaeth rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf

Roedd gwaith gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn dangos bod 210 o'r 542 o rywogaethau sydd ar restr Adran 42 yn dibynnu naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar gynefinoedd coetiroedd, neu y gallai gwaith coedwigaeth effeithio arnynt. Mae 26 ohonynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel. Adroddir am dueddiadau poblogaeth y rhywogaethau hyn yng nghyfnodau adrodd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Mae pedwar cyfnod adrodd wedi'u cynnal hyd yma.

Mae'r tabl isod yn dangos y tueddiadau ar gyfer y rhywogaethau y mae gwybodaeth ar gael amdanynt. Dim ond ar gyfer ychydig o rywogaethau y mae gwybodaeth ar gael hyd yma (rhwng 12 a 26 allan o 210).

**Tabl 19: Pob rhywogaeth â blaenoriaeth**

Cyfnod adrodd	1999	2002	2005	2008
Cynyddu	3	5	4	4
Gostwng	7	8	9	10
Sefydlog neu ddim tuedd amlwg	2	8	13	12
Ddim yn gwybod	198	189	184	184

Ffynhonnell: Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU

Mae'r tabl isod yn dangos tueddiadau ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth uchel yn unig. Unwaith eto, dim ond gwybodaeth am gyfran fach o rywogaethau sydd ar gael.

**Tabl 20: Rhywogaethau â blaenoriaeth uchel**


Cyfnod Adrodd	1999	2002	2005	2008
Cynyddu	2	4	3	3
Gostwng	2	4	3	2
Sefydlog neu ddim tuedd amlwg	1	1	3	3
Ddim yn gwybod	21	17	17	18

Ffynhonnell: Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU

b) Mynegai adar y coetiroedd

Mae'r siart isod yn dangos y newid yn nifer y rhywogaethau adar ers 1994, sy'n dangos bod niferoedd adar y coetiroedd wedi cynyddu ychydig.

Siart 36: Nifer y rhywogaethau adar yn ôl cynefin



Ffynhonnell: Data o'r Arolwg Adar sy'n Bridio a gynhaliwyd gan Gymdeithas Adareg Prydain a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

### Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn olrhain tueddiadau poblogaeth ymhlith rhywogaethau sy'n gysylltiedig â choetiroedd sydd wedi'u rhestru yn Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006: Rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf er cadwraeth amrywiaeth biolegol yng Nghymru. Mae hefyd yn ystyried tueddiadau poblogaeth ymhlith amrywiaeth o adar y coetir.

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chynnal, a bod coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol. Y duedd ddymunol ar gyfer y dangosydd hwn felly yw bod poblogaethau llai o rywogaethau yn gostwng, a bod poblogaethau mwy o rywogaethau yn cynyddu.

## 20. Cysylltiadau

### Pwyntiau allweddol

- Mae'n ymddangos nad yw cyfran y coetiroedd mewn parthau rhwydweithiau wedi cynyddu na gostwng ar y cyfan.
- Coetir oedd 29% o'r holl brif barthau rhwydweithiau yn 2014, sef yr un ganran â 2011.
- Mae cyfran y coetir llydanddail mewn parthau rhwydweithiau allweddol wedi aros yn gyson ers 2011; coed llydanddail yw dros hanner y coetir mewn parthau rhwydweithiau allweddol.
- Bu gostyngiad yng nghyfran y coetir conwydd mewn prif barthau rhwydweithiau rhwng 2011 a 2014, ond bu cynnydd yn y gyfran o goetiroedd cymysg mewn parthau rhwydweithiau allweddol yn ystod yr un cyfnod.

### Data

**Tabl 21: Arwynebedd coetir mewn prif rwydweithiau yn ôl math o goetir**

Math o goetir	Arwynebedd mewn parthau rhwydwaith allweddol (ha)		% arwynebedd y rhwydwaith	
	2011 (NIWT)	2014 (NFI)	2011 (NIWT)	2014 (NFI)
Llydanddail	53,670	53,984	17	17
Conwydd	25,110	23,858	8	7
Cymysg	4,620	4,782	1	2
Wedi cwmpo	2,680	3,666	1	1
Tir wedi'i baratoi ar gyfer plannu	70	464	0	0
Llwyni	270	272	0	0
Coed ifanc	3,590	4,086	1	1
Arall	1,220	1,180	0	0
Cyfanswm coetiroedd	91,570	92,293	29	29
Arwynebedd tir yn y rhwydwaith	318,140	318,140	100	100

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed a'r Rhestr Goedwig Genedlaethol.

**Tabl 22: Arwynebedd coetiroedd mewn parthau rhwydwaith**

Math o barth rhwydwaith	Arwynebedd coetir		% arwynebedd rhwydwaith		Arwynebedd y parth rhwydwaith (ha)
	2011 (NIWT)	2014 (NFI)	2011 (NIWT)	2014 (NFI)	
Prif	91,570	92,293	29	29	318,140
Eilaidd	36,860	37,195	26	26	142,030
Trydyddol	27,570	27,630	20	20	134,820

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed a'r Rhestr Goedwig Genedlaethol.

### Perthnasedd

Un o amcanion y strategaeth hon yw diogelu strwythur rhwydweithiau cynefinoedd coetiroedd, diogelu'r modd y maent yn gweithredu a, lle bo angen, dadwneud sefyllfaoedd lle cafodd cynefinoedd lled-naturiol eu darnio. Mae'r dangosydd hwn yn monitro arwynebedd a'r math o goetir mewn parthau rhwydwaith allweddol

## 21. Coetiroedd yn rhoi pwysau ar ddŵr

Pwyntiau allweddol

- Mae'r dangosydd hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd

Data

Mae'r dangosydd hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd

Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd, trwy leihau unrhyw effaith niweidiol y mae coetiroedd yn ei chael ar ansawdd dŵr.





## 22. Coetiroedd fel ateb wrth reoli dŵr

### Pwyntiau allweddol

- Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

### Data

Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd, trwy leihau llygredd gwasgaredig ac erydiad pridd a helpu i leihau peryglon llifogydd. Y tueddiadau dymunol yw gweld:

- Rhagor o ardaloedd ar lannau afonydd o dan goetir priodol
- Mwy o goetiroedd priodol o fewn parthau dynodedig â blaenoriaeth er mwyn rheoli peryglon llifogydd.



## 23. Treftadaeth a thirwedd

### Pwyntiau allweddol

- Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

### Data

Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

### Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad tirwedd arbennig Cymru, ac i safleoedd sy'n bwysig o safbwynt treftadaeth a diwylliant. Mae Dangosydd 18: Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol yn trafod monitro safleoedd coetir hynafol.

Bydd y dangosydd treftadaeth a thirwedd hwn yn canolbwyntio'n benodol ar:

- Y math o goetir o fewn tirweddau hanesyddol, a'r dulliau o'i reoli
- Maint a chyflwr y coetir pori hynafol yng Nghymru.





## Crynodeb: tabl dangosyddion Coetiroedd i Gymru

Dangosydd	Disgrifiad	Tuedd Ddymunol	Llinell sylfaen	Tuedd ymddangosol hyd at 2016	Canlyniadau cysylltiedig yn y strategaeth Coetiroedd i Gymru	
Coetiroedd a choed Cymru	1. Coetiroedd a choed	Coetiroedd yng Nghymru a nifer y coed y tu allan i goetiroedd	Cynyddu	289,000 ha yn 2000-01	Cynydd o 6% i 306,000 ha	4. Bod arwynebedd coetiroedd yng Nghymru yn cynyddu
	2. Arallgyfeirio coetiroedd	Amrywiaeth coetiroedd ar raddfa dalgylchoedd, ac ar raddfa lai	Cynyddu	Llinell sylfaen 1997 wedi'i sefydlu ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau	Diweddariad i ddod yn ystod y tair blynedd nesaf	2. Bod ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn gryf
	3. Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy	Coetiroedd sy'n cael eu rheoli i Safon Coedwigoedd y DU	Cynyddu	123,000 ha yn 2000-01	Cynydd o 40%	1. Bod mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy
	4. System reoli	Coetiroedd yng Nghymru yn cael eu rheoli heb glirio	Cynyddu	15,000 ha yn 2000-01	Cynydd ond yn amrywiol	3. Bod coetiroedd yn cael eu haddasu'n well i ddarparu ystod lawn o fanteision
	5. Coetiroedd fferm	Coetiroedd fferm yn cael eu rheoli'n weithredol	Cynyddu	12,000 ha yn 2000-01	Cynydd ers 2001	5. Bod rheoli coetiroedd a choed yn cael ei gysylltu'n agosach â dulliau eraill o ddefnyddio tir
	6. Coetiroedd a choed trefol	Brigdwf mewn ardaloedd trefol	Cynyddu	Brigdwf trefol yn 14% yn 2006	Brigdwf trefol yn 17% yn 2009, 16% yn 2013	6. Bod coetiroedd a choed trefol yn darparu ystod lawn o fanteision
	7. Cydbwysedd carbon	Gostwng carbon o stociau biomas a chynhyrchion pren, ac amnewid cynhyrchion a thanwydd	Lleihad sefydlog Cynydd mewn tanwydd	Amcangyfrif bod y gostyngiad blynyddol o goetiroedd ym 1999 yn 1419 Kt CO <sub>2e</sub>	Modelu amcangyfrif o 1404 Kt CO <sub>2e</sub> yn 2013	7. Bod coetiroedd Cymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru
	8. Iechyd coed	Hyd a lled clefydau a difrod yng Nghymru	Sefydlog	Llinell sylfaen wedi'i chwblhau'n rhannol	2 glefyd cwarantîn yn effeithio ar goetiroedd Cymru	2. Bod ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn gryf
	9. Manteision lleol coetiroedd	Canfyddiadau'r cyhoedd o fanteision lleol coetiroedd	Cynyddu	88% o oedolion wedi nodi o leiaf un fantais yn 2005	94% o oedolion yn nodi o leiaf un fantais	8. Bod mwy o gymunedau yn manteisio ar goetiroedd a choed
	10. Cynnwys cymunedau	Nifer y bobl sy'n gysylltiedig â choetiroedd	Cynyddu	2% o oedolion yn aelodau o grwpiau coetir cymunedol yn 2005	3% o oedolion yn aelodau o grwpiau coetir cymunedol	8. Bod mwy o gymunedau yn manteisio ar goetiroedd a choed 9. Bod mwy o bobl yn Mwynhau'r manteision dysgu gydol oes sy'n gysylltiedig â choetiroedd a'u cynhyrchion
Nwyddau a gwasanaethau	11. Gweithgareddau hamdden	Cyfran y boblogaeth sy'n defnyddio coetiroedd ar gyfer gweithgareddau hamdden goddefol ac egniol	Cynyddu	62% o oedolion wedi ymweld â choetiroedd yn 2003	64% o oedolion wedi ymweld â choetiroedd yn 2013	10. Mwy o bobl yn byw bywyd iachach yn sgil defnyddio a mwynhau coetiroedd
	12. Hygyrchedd	Cyfran y bobl â choetir hygyrch sy'n agos i'w cartrefi	Cynyddu	Roedd gan 16% 2ha+ o goetir hygyrch o fewn 500m i'w cartrefi yn 2004	Mae gan 23% 2ha+ o goetir hygyrch o fewn 500m i'w cartrefi yn 2012	10. Mwy o bobl yn byw bywyd iachach yn sgil defnyddio a mwynhau coetiroedd



13. Mentrau lleol	Nifer y mentrau sy'n defnyddio coetiroedd	Cynyddu	760 o fusnesau, 11,100 o weithwyr cyflogedig ym 1999	715 o fusnesau, 11,100 o weithwyr cyflogedig yn 2014	11. Bod mwy o bobl yn elwa ar fentrau cysylltiedig â choetiroedd
14. Defnydd o bren Cymru	Cyfran y pren sydd ar gael sy'n cael ei gynaeafu a'i brosesu yng Nghymru	Cynyddu	69% wedi'i gynaeafu (2000); 74% o foncyffion o Gymru wedi'u prosesu yng Nghymru (2004)	90% o bren meddal wedi'i gynaeafu; dros 60% o foncyffion o Gymru wedi'u prosesu yng Nghymru	12. Bod mwy o bren Cymru yn cael ei brosesu yng Nghymru 7. Bod coetiroedd Cymru yn cyfrannu at ostwng ôl-troed carbon Cymru
15. Gwerth y sector coedwigaeth	Gwerth y sector coedwigaeth i economi Cymru	Cynyddu	Amcangyfrif o'r GVA ar gyfer y sector coedwigaeth a sectorau cysylltiedig: £402.7 miliwn yn 2005	Amcangyfrif o'r GVA ar gyfer y sector coedwigaeth a sectorau cysylltiedig: £528.6 miliwn yn 2014	13. Bod y sector coedwigaeth wedi cael ei integreiddio'n well a'i fod yn fwy cystadleuol, ac yn cefnogi economi Cymru 8. Bod mwy o bobl yn elwa ar fentrau cysylltiedig â choetiroedd
16. Y galw am bren	Y galw am gynhyrchion pren a'r defnydd o bren yng Nghymru, gan gynnwys y galw am bren ardystiedig	Cynyddu	Defnydd ymddangosol o 50.4 miliwn m <sup>3</sup> o is-risgl cyfwerth â deunydd pren crai yn y DU (2002)	Defnydd ymddangosol o 55 miliwn m <sup>3</sup> o is-risgl cyfwerth â deunydd pren crai yn y DU yn 2015	14. Bod defnydd cynyddol o bren fel adnodd adnewyddadwy allweddol 1. Bod mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy
17. Iechyd y sector coedwigaeth	Iechyd busnesau y sector coedwigaeth, gan gynnwys sgiliau	Gwella	Rhannol 2004, llinell sylfaen lawn 2010	Llinell sylfaen lawn o 2010	13. Bod y sector coedwigaeth yn cael ei integreiddio'n well a'i fod yn fwy cystadleuol, ac yn cefnogi economi Cymru 15. Bod gweithlu medrus a ffyniannus yn y sector coedwigaeth
18. Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol	Arwynebedd a chyflwr coetiroedd brodorol, a choetiroedd ar safleoedd dynodedig neu hynafol, a nifer y coed hynafol	Gwella	Arwynebedd y coetiroedd brodorol ym 1997: 109,500 ha; nodweddion coetiroedd mewn ACA sydd mewn cyflwr ffafriol: 25.6%	Nodweddion coetiroedd mewn ACA sydd mewn cyflwr ffafriol: 27.7%	17. Bod coetiroedd a choed o werth cadwraeth arbennig yn cael eu rheoli'n ffafriol 18. Bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chefnogi a bod coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol 16. Bod coetiroedd yn cael eu rheoli yn unol â safonau uchel o stiwardiaeth amgylcheddol
19. Rhywogaethau coetiroedd	Statws rhywogaethau coetiroedd â blaenoriaeth	Gwella	Llinell sylfaen rhannol 1998 – gwybodaeth am dueddiadau poblogaeth ar gael ar gyfer 12 rhywogaeth yn unig	Data rhannol 2008 – gwybodaeth am dueddiadau poblogaeth ar gael ar gyfer 26 rhywogaeth	18. Bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chefnogi a bod coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol
20. Cysylltiadau	Arwynebedd a math o goetiroedd mewn ardaloedd coetiroedd allweddol	Cynyddu	137,250ha o goetir mewn parthau rhwydwaith (1997)	157,118ha o goetir mewn parthau rhwydwaith (2011)	18. Bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chynnal a bod coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol
21. Coetiroedd yn rhoi pwysau ar ddŵr	Arwynebedd coetiroedd sy'n rhoi pwysau ar faint o ddŵr sydd ar gael, neu ansawdd y dŵr	Gostwng	Dim llinell sylfaen	Dangosydd heb ei sefydlu eto	20. Bod coetiroedd a choed newydd a rhai sy'n bodoli'n barod yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd



22. Coetiroedd fel ateb wrth reoli dŵr

Coetiroedd sy'n cyfrannu at wella faint o ddŵr sydd ar gael, neu wella ansawdd y dŵr

Cynyddu

Dim llinell sylfaen

Dangosydd heb ei sefydlu eto

20. Bod coetiroedd a choed newydd a rhai sy'n bodoli'n barod yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd

23. Treftadaeth a thirwedd


Addasrwydd esthetig coetiroedd mewn ardaloedd lle mae'n rhan bwysig o gymeriad y dirwedd

Cynyddu

Dim llinell sylfaen

Dangosydd heb ei sefydlu eto

19. Bod coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad tirwedd arbennig Cymru ac at safleoedd sy'n bwysig o safbwynt treftadaeth a diwylliant



# Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

1. Caiff Ystadegau Swyddogol eu llunio yn unol â safonau proffesiynol uchel y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Maent yn destun adolygiadau sicrhau ansawdd rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau gwleidyddol.

## Defnyddwyr a Defnyddiau

2. Mae Dangosyddion Coetiroedd i Gymru yn bwysig er mwyn monitro cynnydd y Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru, a chyflwr coedwigaeth Cymru yn gyffredinol. Mae rhai o'r defnyddiau'n cynnwys:
  - Monitro cynnydd tuag at dargedau
  - Datblygu polisi
  - Cyngor i Weinidogion
  - Llywio trafodaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydliadau eraill
  - Proffilio, cymharu a meincnodi daearyddol

Mae amrywiaeth o ddefnyddwyr yn defnyddio'r ystadegau hyn, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, y rhai sy'n ymwneud â'r sector coedwigaeth, ymchwilwyr, myfyrwyr a dinasyddion unigol.

## Ansawdd y Data

3. Mae'n bosibl bod unrhyw ddata hanesyddol a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'i ddiweddarau neu ei gywiro ers cyhoeddi adroddiadau blaenorol. O ganlyniad, dylid gwneud unrhyw gymariaethau hanesyddol ar sail y data yn yr adroddiad hwn lle bo hynny'n bosibl.
4. Mewn tablau lle mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd swm y ffigurau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm a ddangosir.

## Ffynonellau Data a Chwmpas

5. Mae data yn yr adroddiad hwn yn dod o amrywiaeth o ffynonellau. Mae llawer o'r data yn cael ei gyhoeddi mewn cyhoeddiadau eraill. Nodir y ffynonellau isod, ynghyd â dolenni ar gyfer rhagor o wybodaeth neu ddata:
  - [Ystadegau Coedwigaeth](#)
  - [Y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed](#)
  - [Arolwg Cefn Gwlad](#)
  - Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru ymhlith Ffermwyr
  - Arolwg i Adnoddau Coedwigaeth
  - Rhestr Coed Drefol Cymru, ar gael fel data daearyddol ar [borwr map y Comisiwn Coedwigaeth](#)
  - [Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth](#)
  - [Forest Research](#)
  - Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o Grwpiau Coetir Cymunedol yng Nghymru
  - Adroddiadau prosiect [Cydcoed](#)
  - [Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru](#)



- [Space for People](#)
- [Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol](#)
- Data dosbarthu'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)
- [Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth](#)
- [Arolwg Poblogaeth Flynyddol](#)
- Rhagolygon Cynhyrchu'r Comisiwn Coedwigaeth  
<<http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-8RBP8T>>
- [Arolwg Busnes Blynyddol](#)
- [Cyfrifon Rhanbarthol](#)
- Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o Fentrau Coetiroedd
- [Amcanestyniadau o allyriadau a daliadau o'r sector LULCF hyd at 2050](#)

#### Ystadegau cysylltiedig ar gyfer gwledydd eraill y DU

6. Cyhoeddir dangosyddion y DU yn 'UK indicators of Sustainable Forestry', sydd ar gael [ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth](#)
7. Mae Dangosyddion Perfformiad Cynlluniau Corfforaethol y Comisiwn Coedwigaeth a'r prif adroddiadau ar berfformiad ar gael ar [wefan Comisiwn Coedwigaeth Lloegr](#)
8. Mae dangosyddion ar gyfer Strategaeth Bioamrywiaeth Lloegr yn cynnwys gwybodaeth am goetiroedd ac maent ar gael o'r wefan [GOV.uk](#)
9. Mae dangosyddion cynnydd Strategaeth Coedwigaeth yr Alban ar gael ar [wefan Comisiwn Coedwigaeth yr Alban](#).



# Geirfa

---

**Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA):** Safle dynodedig sydd wedi'i ddiogelu o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE.

**Ardal cwmpo coed:** Torri ardal o goetir (os yw'r ardal o fewn coetir mwy, mae'n ardal gwmpo coed dros 0.25 hectar fel arfer). Weithiau, gall clystyrau o goed gwasgaredig barhau i sefyll mewn ardal cwmpo coed

**Arwynebedd coetir:** Cyfanswm y coetir, a fynegir o bosibl fel arwynebedd, neu fel cyfran yr holl dir mewn gwlad neu ardal arall

**Asiantaeth yr Amgylchedd (EA):** Corff llywodraeth anadrannol sy'n ceisio gwarchod yr amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Ers mis Ebrill 2013, mae swyddogaethau'r Asiantaeth yng Nghymru wedi'u trosglwyddo i gorff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) **Brigdwf:** Cyfran ardal a orchuddir gan ganopïau coed

**Clawdd creiriol:** Llinell o goed a oedd yn arfer ffurfio clawdd ond nad yw'n ffurfio ffin gyflawn bellach

**Coed yn cwmpo oherwydd y gwynt:** Coed yn cwmpo neu'n torri oherwydd y gwynt

**Coedwigoedd:** Ardaloedd mawr o dir sydd wedi'u gorchuddio â choed gan amlaf

**Coetir:** Tir sydd wedi'i orchuddio â choed yn bennaf. Mae'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (yn y DU) yn diffinio coetir fel tir lle byddai'r coed aeddfed yn gorchuddio mwy nag 20% o'r arwynebedd

**Coetir brodorol:** Coed sy'n cynnwys rhywogaethau brodorol lleol yn bennaf neu'n gyfan gwbl

**Coetir Hynafol:** Safleoedd sydd wedi'u gorchuddio â choed yn ddi-dor ers cyn 1600 AD

**Coetir Hynafol a Lled-Naturiol (ASNW):** Coetir hynafol lle mae'r coed a'r llwyni yn lled-naturiol. Dyma'r coetiroedd pwysicaf o safbwynt bioamrywiaeth fel arfer

**Coetir lled-naturiol:** Nid oes unrhyw goedwigoedd gwirioneddol 'naturiol' ar ôl yn y DU. Gan amlaf, mae coetiroedd lled-naturiol yn cynnwys coed a llwyn sy'n frodorol i'r safle nad ydynt wedi'u plannu. Byddant wedi tyfu o ganlyniad i adfer naturiol fel arfer, neu yn sgil tyfiant coedlan/tocbren

**Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC):** Bu'n gweithredu fel Adran Goedwigaeth Llywodraeth Cymru hyd at fis Ebrill 2013, gan reoli'r 38% o goetiroedd Cymru ar Ystâd Goed Llywodraeth Cymru. Ar ran Llywodraeth Cymru, roedd y Comisiwn yn rhoi cyngor ar ddatblygu a gweithredu polisi coedwigaeth; yn hyrwyddo prosesau rheoli coetiroedd cynaliadwy yn y sector preifat; yn gweinyddu grantiau; ac roedd yn gyfrifol am waith rheoleiddio, gan gynnwys cyhoeddi trwyddedau i gwmpo ac ailblannu coed. Ers mis Ebrill 2013, mae swyddogaethau'r Comisiwn wedi'u trosglwyddo i gorff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

**Cydcoed:** Prosiect gwerth £16 miliwn a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd drwy Amcan Un, gyda'r nod o ennyn diddordeb cymunedau mewn coetiroedd lleol er mwyn cynyddu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn lleol

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dwyn ynghyd gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ei bwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac i'r dyfodol

**Cymuned:** Grŵp o bobl sydd â rhywbeth yn gyffredin, fel lle neu ddiddordeb

**Cymysgedd cynefin:** Cymysgedd o rywogaethau coed gwahanol mewn ardal fechan

**Cynefin:** Ardal sy'n gartref i rywogaeth benodol

**Cynefin agored:** Cynefin sydd heb goed (neu sydd â nifer fach o goed) e.e. cors, rhostir a glaswelltir

**Cynefinoedd agored â blaenoriaeth:** Cynefinoedd agored sydd wedi'u nodi fel cynefinoedd dan fygythiad ac yn dod o dan Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Maen nhw'n cynnwys gwaun uchel, gorgors, glaswelltir sych asidig iseldir, dôl iseldir a glaswelltir calchaid iseldir

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC):** Hyd at fis Ebrill 2013, CCGC oedd cynghorydd statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwylt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru a'i dyfroedd mewndirol. Ers mis Ebrill 2013, mae swyddogaethau CCGC wedi'u trosglwyddo i gorff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

**Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP):** Cynllun ar gyfer cynefin neu rywogaeth allweddol sy'n nodi'r rhesymau am eu dirywiad a'r gwaith sydd angen ei wneud i'w hadfer. Cymeradwyir BAPs cenedlaethol gan y Llywodraeth ac maent yn rhan o Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Ysgogwyd y cynlluniau hyn yn wreiddiol gan Gonfensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 1992

**Cynnyrch pren:** Cyfanswm y pren sy'n cael ei gynhyrchu

**Dalgylch:** Ardal o dir sy'n cynnwys system afon

**Defnydd ymddangosol:** Cyfanswm rhywbeth a ddefnyddir mewn gwlad neu ardal, sy'n cael ei gyfrifo drwy ychwanegu'r cyfanswm a gynhyrchir yn y wlad neu'r ardal honno at y cyfanswm sy'n cael ei fewnforio a thynnu'r cyfanswm sy'n cael ei allforio

**Ecosystem:** Cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid (gan gynnwys pobl) sy'n rhyngweithio â'i gilydd ac â'r amgylchedd naturiol. Mae ecosystemau cytbwys yn sefydlog o'u hystyried dros yr hirdymor (cannoedd o flynyddoedd yn achos coetiroedd)

**Erydiad pridd:** Pridd yn cael ei erydu oherwydd prosesau naturiol fel dŵr neu'r gwynt

**Forest Research (FR):** Un o asiantaethau'r Comisiwn Coedwigaeth sy'n darparu gwasanaethau ymchwil, datblygu a monitro er mwyn cynorthwyo coedwigaeth yn y DU, y Comisiwn Coedwigaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru a pholisïau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig

**Glannau afon:** *Yr ardal o gwmpas ymyl afon, nant neu ardal arall o ddŵr croyw*

**Gwasanaethau ecosystemau:** *Manteision i bobl sy'n deillio o adnoddau a phrosesau ecosystemau naturiol. Mae llawer o astudiaethau wedi ceisio mesur gwerth economaidd y gwasanaethau hyn, sy'n cynnwys:*

- *gwasanaethau darparu, fel bwyd, dŵr a choed*
- *gwasanaethau diwylliannol, fel manteision hamdden, iechyd ac esthetig*
- *gwasanaethau rheoleiddio, fel darparu lloches, cysgod a systemau oeri mewn trefi, a lleiniau cysgodi ar dir fferm*
- *gwasanaethau cymorth, fel dal a storio carbon (cloi carbon atmosfferig), ffurfio pridd a ffotosynthesis*

**Gwerth Ychwanegol Gros (GVA):** *Y dull cydnabyddedig cyfredol o asesu'r economi, a'r gyfran y mae diwydiannau gwahanol yn ei chyfrannu tuag ati*

**Hamdden egniol:** *Hamdden sy'n gysylltiedig â gweithgaredd sy'n cynyddu cyfradd curiad calon y sawl sy'n cymryd rhan, neu'n gwneud iddo/iddi chwysu. Mae enghreifftiau'n cynnwys beicio mynydd neu redeg ar hyd llwybrau*

**Hamdden goddefol:** *Hamdden nad yw'n gysylltiedig â gweithgaredd sy'n cynyddu cyfradd curiad calon y sawl sy'n cymryd rhan, neu'n gwneud iddo/iddi chwysu. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwyllo adar neu gael picnic.*

**Lleihau carbon:** *Lleihau faint o garbon sy'n cael ei ychwanegu i'r atmosffer*

**Llygredd gwasgaredig:** *Llygredd sy'n deillio o fwy nag un ffynhonnell*

**Nodwedd linellol goediog:** *Llinell o goed, llai na 5m o led, gyda bylchau hyd at 20m a hyd o 20m o leiaf*

**Ôl troed carbon:** *Darlun o effaith gweithgareddau pobl o safbwynt cyfanswm net y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir, gan gynnwys carbon a methan, wedi'i fynegi fel arfer fel tunelli o garbon ar ffurf gyfwerth â CO<sub>2</sub>*

**Parthau rhwydwaith:** *Mewn rhwydwaith cynefin coetir, mae coed wedi'u cysylltu'n ddigonol i weithredu gyda'i gilydd, gydag unigolion yn mynd a dod rhwng coetiroedd*

**Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS):** *Hen Goetir Hynafol a Lled-naturiol (ASNW) sydd fwy neu lai wedi'i ailblannu'n gyfan gwbl gyda rhywogaethau brodorol neu anffodorol, gan ddiraddio'r gwerth ecolegol. Mae'r graddau y mae bioamrywiaeth yn cael ei cholli yn amrywio'n fawr ar sail y rhywogaethau a blannwyd a'r broses o'u rheoli wedyn.*

**Pren caled:** *Coed sy'n dod o goed llydanddail*

**Pren meddal:** *Coed sy'n dod o gonwydd*

**Prosesydd pren eilaidd:** *Busnes sy'n defnyddio cynnyrch pren i greu cynnyrch o fath gwahanol*



**Prosesydd pren sylfaenol:** *Busnes sy'n cymryd y cam cyntaf yn y broses o droi coed yn gynhyrchion*

**Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed (NIWT):** *Arolwg o goetiroedd a gynhaliwyd yn ystod degawd olaf yr ugeinfed ganrif; 1997 yw'r flwyddyn gyfeirio ar gyfer yr arolwg hwn fel arfer. Yr arolwg hwn oedd rhagflaenydd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol*

**Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (NFI):** *Olynydd y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed; arolwg cenedlaethol dreigl sy'n nodi coetiroedd; perchnogion coetiroedd; a choetiroedd yn ôl y math o goedwigoedd. Cesglir amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys rhywogaethau, oed a dwysedd y stoc goed*

**Rhywogaethau â blaenoriaeth:** *Rhywogaethau sydd wedi'u nodi fel rhywogaethau dan fygythiad sy'n dod o dan Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Mae rhywogaethau â blaenoriaeth sy'n byw yng nghoetiroedd Cymru yn cynnwys y wybodeg frith, telor y coed, y rugiar ddu, goch y berllan, y wiwer goch, y pathew a sawl rhywogaeth o ystumod*

**Rhywogaeth blaenoriaeth uchel:** *Rhywogaethau sydd wedi'u nodi fel y rhai sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf ac sydd angen eu gwarchod o dan Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth*

**Rhywogaeth gynhenid:** *Rhywogaeth a gyrhaeddodd yng Nghymru heb gymorth pobl yn ystod coloneiddio ôl-rewlifol*

**Safle tir llwyd:** *Tir a ddefnyddiwyd ar gyfer diwydiant, adeiladau ac ati yn y gorffennol ond nad yw'n cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw bellach*

**Safon Coedwigaeth y DU (UKFS):** *Dull llywodraeth y DU o reoli coedwigaeth gynaliadwy. Mae'n pennu'r meini prawf a'r safonau ar gyfer rheoli holl goedwigoedd a choetiroedd y DU mewn ffordd gynaliadwy*

**Stociau carbon:** *Carbon sy'n cael ei storio, fel y carbon sydd wedi'i gloi mewn coed neu gynhyrchion coed*

**Y Comisiwn Coedwigaeth (FC):** *Adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am warchod ac ehangu coedwigoedd a choetiroedd yn Lloegr a'r Alban*

**Ystad Goed Llywodraeth Cymru (WGWE):** *Coetiroedd a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, sef 38% o goetiroedd Cymru*

